I S - D D E D D F W R I A E T H

# NOSC 2026 Rhif 75

## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

## Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch y Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol ar gyfer Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol 2026

| | |
|---|---|
| Gwnaed | 7 Ebrill 2026 |
| Yn dod i rym | 7 Ebrill 2026 |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 12, 60, 203(9) a (10) a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**a**), ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 60(4) o'r Ddeddf honno â'r cyrff yr ymddangosai iddynt hwy eu bod yn cynrychioli'r personau y mae'r Cyfarwyddydau hyn yn ymwneud â'u tâl ac ag unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol, yn rhoi'r cyfarwyddydau a nodir yn y Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol ("DHA") hwn.

Mae'r Cyfarwyddydau hyn yn gymwys i Fyrddau Iechyd Lleol ("BILlau") yng Nghymru ac yn dod i rym ar 7 Ebrill 2026.

Rhaid i BILlau gymhwyso'r Cyfarwyddydau hyn mewn perthynas â thaliadau sydd i'w gwneud gan BILlau i gontractwr o dan gontract gwasanaethau deintyddol cyffredinol yr ymrwymir iddo o dan adran 59 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ac yn unol â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Ffioedd Cleifion) (Cymru) 2026(**b**) ("Rheoliadau 2026").

Mae'r Cyfarwyddydau hyn yn disodli'n uniongyrchol y Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol ar gyfer Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol 2026, sy'n cael ei ddirymu o 7 Ebrill 2026. Fodd bynnag, y cyfarwyddydau hynny fydd y cyfarwyddydau perthnasol o hyd mewn cysylltiad â gwasanaethau a ddarparwyd ar 1 Ebrill 2026 a'r Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol ar gyfer Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol 2009 (fel y'i diwygiwyd) ar gyfer gwasanaethau a ddarparwyd o dan gontractau yr ymrwymwyd iddynt o dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006(**c**).

**a** 2006 p.42.
**b** O.S.C. 2026/37.
**c** O.S. 2006/490 (Cy.59).

# DATGANIAD AR HAWLOGAETHAU ARIANNOL AR GYFER GWASANAETHAU DEINTYDDOL CYFFREDINOL

RHAN 1 CYFLWYNIAD A RHESTR TERMAU 5
Cyflwyniad 5
Rhestr termau 5
RHAN 2 GWERTHOEDD BLYNYDDOL Y CONTRACT 7
Gwerthoedd Blynyddol y Contract 7
GBCau newydd neu GBCau cyntaf 7
GBCau newydd neu GBCau cyntaf pan fo contract GDC wedi ei ddiwygio 7
Uwchraddio GBCau yn flynyddol 8
Gwerth Blynyddol Gwirioneddol y Contract 8
Talu Taliadau Gwerth Blynyddol y Contract Misol 8
Gwerth cychwynnol TGBCau Misol 8
Diwygio gwerth cychwynnol TGBCau Misol 8
Didyniadau mewn cysylltiad â ffioedd GIG 9
Didyniadau mewn cysylltiad â gordaliadau etc. 10
Didyniadau mewn cysylltiad ag ardollau Pwyllgor Deintyddol Lleol (PDLl) 11
Didyniadau mewn cysylltiad â chyfraniadau blwydd-dal pensiwn cyflogai 11
Gwerth net TGBCau Misol y contractwr 11
Amodau sy’n gysylltiedig â TGBCau Misol 12
Rhestr Taliadau Misol 12
Adroddiad Cysoni Blynyddol y Contract 13
Cyfraniadau blwydd-dal pensiwn cyflogwr Deintydd-Gyflawnwyr 13
Cyfraniadau blwydd-dal pensiwn cyflogai a Chyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Prynu Arian Deintydd-Gyflawnwyr 14
Didyniadau misol mewn cysylltiad â chyfraniadau blwydd-dal pensiwn cyflogai Deintydd-Gyflawnwyr 14
Addasiadau diwedd blwyddyn 15
RHAN 3 TALIADAU AM WASANAETHAU GORFODOL 17
Taliadau am Wasanaethau Gorfodol a Ddarperir yn ôl Cyfrannau 17
Mynediad Brys ar gyfer Cleifion Newydd (7% o GBC) 17
Asesiadau Cleifion Newydd drwy’r Porth Mynediad Deintyddol (10% o GBC) 18
Y mathau o becynnau gofal a’u gwerthoedd 18
Capiau blynyddol ar becynnau gofal penodol 22
Gofynion ynglŷn â chynllun triniaeth 22
Rheolau talu ar ôl dadrestru 23
Gofynion ynglŷn â chadw tystiolaeth 23
Taliad y pen ar gyfer gwasanaethau atal (5% o GBC) 23
Taliad y pen ar gyfer apwyntiadau adalw (3% o GBC) 24
Y Cynllun Blaenoriaethau Cenedlaethol 25
Gofal brys i gleifion gweithredol 25
RHAN 4 TALIADAU AT DDIBENION PENODOL 26
Taliadau Oedran 26
Meini prawf cymhwystra 26
Ceisiadau am daliad oedran 26
Y cyfrifiad canrannol ac uchafswm y Taliadau Oedran Misol 26
Amcangyfrifon o Enillion Pensiynadwy misol net 27

Amodau sy’n gysylltiedig â Thaliadau Oedran Misol 27
Taliadau mewn cysylltiad â hyfforddiant sylfaen 27
Cymhwystra i gael taliadau mewn cysylltiad â hyfforddiant sylfaen 28
Grant Hyfforddwr 28
Taliad Cost Gwasanaeth 28
Darpariaethau ynglŷn â rhan o flwyddyn a therfynu’n gynnar 28
Amodau sy’n gysylltiedig â thaliadau o dan yr adran hon 29
Taliadau mewn cysylltiad ag absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth ac absenoldeb mabwysiadu 29
Cymhwystra i gael taliadau absenoldeb mamolaeth 29
Cymhwystra i gael taliadau absenoldeb tadolaeth – genedigaeth 30
Cymhwystra i gael taliadau absenoldeb tadolaeth – mabwysiadu 30
Cymhwystra i gael taliadau absenoldeb mabwysiadu 31
Absenoldeb rhiant ar gyfer y rheini sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant sylfaen cymeradwy 31
Ystyr “Cyfnod Tâl Absenoldeb Rhiant” 31
Ceisiadau i gael taliadau absenoldeb rhiant 32
Cyfrifo swm y taliadau absenoldeb rhiant a’r dyddiad dyledus 33
Amodau sy’n gysylltiedig â thaliadau absenoldeb rhiant 33
Taliadau mewn cysylltiad ag absenoldeb oherwydd salwch hirdymor 34
Hawlogaeth i daliadau absenoldeb oherwydd salwch 34
Ceisiadau am daliadau absenoldeb oherwydd salwch 35
Cyfrifo swm y taliadau absenoldeb oherwydd salwch a’r dyddiad dyledus 35
Amodau sy’n gysylltiedig â thaliadau absenoldeb oherwydd salwch 35
Taliadau am gydweithredu proffesiynol 36
Ad-dalu ardrethi annomestig 36
Cymhwystra i gael ad-daliad o ardrethi annomestig 36
Ceisiadau am ad-daliad o ardrethi annomestig 36
Swm yr ardrethi annomestig y caniateir eu had-dalu 37
Amodau sy’n gysylltiedig â thaliadau o dan yr adran hon 38
Ad-dalu ffioedd labordy 38
RHAN 5 DARPARIAETHAU ATODOL 40
Darpariaethau gweinyddol 40
Gweinyddu gan AGB y GIG 40
Gordaliadau/tandaliadau 40
Taliadau ar gyfrif 41
Terfynau amser i hawlio 41
Cysoniadau pan derfynir contract 41
Datrys anghydfodau 41

# RHAN 1
# CYFLWYNIAD A RHESTR TERMAU

## Cyflwyniad

1.1. Mae’r cyfarwyddyd hwn yn ymwneud â’r taliadau sydd i’w gwneud gan BILlau i gontractwr o dan Gontract GDC yr ymrwymir iddo yn unol â Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Ffioedd Cleifion) (Cymru) 2026.

1.2. Mae’r DHA hwn wedi ei rannu’n adrannau, Rhannau, paragraffau ac is-baragraffau. Darperir Rhestr Termau o rai o’r geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y cyfarwyddyd hwn.

1.3. Yn y DHA hwn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:

(a) mae i eiriau neu ymadroddion a ddefnyddir yma ac yn Neddf 2006 yr ystyr a roddir iddynt yn Neddf 2006;

(b) mae i eiriau neu ymadroddion a ddefnyddir yma ac yn Rheoliadau 2026 yr ystyr a roddir iddynt yn Rheoliadau 2026;

(c) mae cyfeiriadau at ddeddfwriaeth (h.y. Deddfau ac is-ddeddfwriaeth) yn gyfeiriadau at y ddeddfwriaeth honno fel y’i diwygiwyd, fel y’i hestynnwyd neu fel y’i cymhwyswyd, o bryd i’w gilydd;

(d) Mae geiriau yn y ffurf unigol yn cynnwys y ffurf luosog ac fel arall

1.4. Mewn mannau amrywiol yn y DHA hwn, cyfeirir at ymarferydd deintyddol yn cael “a gyflogir neu a gymerir ymlaen” gan gontractwr. Yn y DHA hwn, mae “a gyflogir neu a gymerir ymlaen”, mewn perthynas â pherthynas ymarferydd deintyddol â chontractwr yn cynnwys, yn ogystal ag ymarferwyr deintyddol a chanddynt gontract gwasanaeth neu gontract ar gyfer gwasanaethau â’r contractwr:

(a) ymarferydd deintyddol sy’n gontractwr;

(b) ymarferydd deintyddol sy’n bartner mewn contractwr sy’n bartneriaeth; ac

(c) ymarferydd deintyddol sy’n gyfarwyddwr i gorfforaeth ddeintyddol.

1.5.Caniateir diwygio’r DHA hwn unrhyw bryd, mewn amgylchiadau penodol gydag effaith ôl-weithredol os, wrth ystyried y cyfarwyddyd yn ei gyfanrwydd, nad yw'r ddarpariaeth ôl-weithredol yn niweidiol i'r personau y mae'n ymwneud â'u taliad cydnabyddiaeth.**d** I gael yr wybodaeth fwyaf cyfredol, cysylltwch ag: Y Gyfarwyddiaeth Polisi Iechyd Cymunedol, Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Iechyd, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu ewch i’r wefan a ganlyn: www.llyw.cymru.

## Rhestr termau

1.6. Yn y DHA hwn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, mae i’r termau a ganlyn yr ystyron a roddir:

mae i “asesiad claf newydd” yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 o Reoliadau 2026;

ystyr “AGB y GIG” yw Awdurdod Gwasanaethau Busnes y Gwasanaeth Iechyd Gwladol;

ystyr “BILl” yw Bwrdd Iechyd Lleol;

ystyr "blwyddyn gontract" yw pob cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar 1 Ebrill ac sy'n dod i ben ar 31 Mawrth pryd y mae’r contract mewn effaith, ac eithrio, mewn achos pan fo contract yn dechrau ar ddyddiad heblaw 1 Ebrill, mai blwyddyn gyntaf y contract yw'r cyfnod sy'n dechrau ar y dyddiad y daw'r contract i effaith ac sy'n dod i ben ar y 31 Mawrth canlynol;

**d** Gweler Deddf GIG (Cymru) 2006 adran 60(3)(e).

mae i “claf gweithredol” yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 o Reoliadau 2026;

ystyr “contract GDC” yw contract gwasanaethau deintyddol cyffredinol o dan adran 59 o Ddeddf 2006;

ystyr “cyfrannau” yw’r canrannau o wasanaethau gorfodol a bennir yn rheoliad 17 o Reoliadau 2026;

ystyr “Cynllun Hyfforddiant Sylfaen Cymeradwy” yw cynllun hyfforddiant sylfaen a gymeradwyir gan y Deon Deintyddol Ôl-raddedig;

ystyr “Deddf 2006” yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr “Deintydd-Gyflawnydd” yw ymarferydd deintyddol y mae ei enw wedi ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr deintyddol;

ystyr “Deintydd Sylfaen” yw ymarferydd deintyddol sy’n ymgymryd â hyfforddiant sylfaen fel rhan o Gynllun Hyfforddiant Sylfaen Cymeradwy;

ystyr “Deon Deintyddol Ôl-raddedig” yw’r person a benodir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru i oruchwylio addysg a hyfforddiant deintyddol ôl-raddedig yng Nghymru;

mae i “Enillion Pensiynadwy” yr ystyr a roddir yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn y GIG;

ystyr “GBC” yw Gwerth Blynyddol y Contract, fel y’i diffinnir ym mharagraff 2.1;

ystyr “GBCN” yw Gwerth Blynyddol y Contract a Negodwyd, fel y’i diffinnir ym mharagraff 2.1;

ystyr “GBGC” yw Gwerth Blynyddol Gwirioneddol y Contract, fel y’i diffinnir ym mharagraff 2.9;

mae i “gwasanaethau gorfodol” yr ystyr a roddir yn rheoliad 14 o Reoliadau 2026;

ystyr “Hyfforddwr Deintyddion Sylfaen” yw ymarferydd deintyddol sydd wedi ei gymeradwyo gan y Deon Deintyddol Ôl-raddedig i ddarparu hyfforddiant sylfaen i Ddeintydd Sylfaen;

mae i “pecyn gofal” yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 o Reoliadau 2026;

mae i “Porth Mynediad Deintyddol” yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 o Reoliadau 2026;

ystyr “Rheoliadau 2026” yw Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Ffioedd Cleifion) (Cymru) 2026;

ystyr “Rheoliadau Swyddogaethau” yw Rheoliadau Swyddogaethau Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority) (Gwasanaethau Deintyddol Sylfaenol) (Cymru) 2006(**e**);

ystyr “TGBC” yw Taliad Gwerth Blynyddol y Contract, fel y’i diffinnir ym mharagraff 3.1;

ystyr “TGBC Misol” yw’r taliad misol a gyfrifir yn unol ag adran 3 o’r DHA hwn.

**e** O.S. 2006/941 (Cy. 90).

## RHAN 2
## GWERTHOEDD BLYNYDDOL Y CONTRACT

### Gwerthoedd Blynyddol y Contract

2.1. Mae taliadau o dan gontract GDC mewn cysylltiad â'r gwasanaethau gorfodol a thelerau gofynnol a bennir yn y contract i'w seilio ar Werth Blynyddol y Contract ("GBC"), sef cyfanswm y gwerth blynyddol mewn punnoedd sterling y cytunir arno rhwng y BILl a'r contractwr ar gyfer darparu gwasanaethau gorfodol a thelerau gofynnol o dan y contract.

2.2. Mae'r GBC yn adlewyrchu gwerth cyflenwi gwasanaethau gorfodol yn y cyfrannau a bennir yn rheoliad 17 o Reoliadau 2026, sef:

(a) 7% ar gyfer triniaeth frys ar gyfer cleifion newydd;

(b) 3% ar gyfer apwyntiadau adalw rhwng 18 a 24 mis;

(c) 10% ar gyfer asesiadau cleifion newydd;

(d) 70% i ddarparu pecynnau gofal;

(e) 5% ar gyfer gwasanaethau atal; ac

(f) 5% ar gyfer blaenoriaethau lleol neu genedlaethol,

oni bai bod y BILl wedi gwyro oddi wrth y cyfrannau safonol o fewn y cyfanswm cyfan o 100% ar sail ardal gyfan, ar sail rhan o ardal, neu mewn perthynas â phractis unigol ar ôl ymgynghori â'r contractwr yr effeithir arno a rhoi o leiaf 28 o ddiwrnodau clir o rybudd(**f**). Mae'r GBC hefyd yn cynnwys y taliad blynyddol llawn sydd i'w wneud am fynd i bedwar cyfarfod cydweithredol bob blwyddyn.

### GBCau newydd neu GBCau cyntaf

2.3. Rhaid i'r BILl a'r contractwr gytuno, mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol gyntaf y mae contract GDC yn cael effaith ynddi, ar GBC ar gyfer y contract GDC, yn seiliedig ar y gwasanaethau gorfodol y mae'n ofynnol i'r contractwr eu darparu o dan ei gontract GDC yn y cyfrannau sy'n gymwys i'r contract hwnnw a'r taliad am fynd i bedwar cyfarfod cydweithredol bob blwyddyn.

2.4. Os yw contract GDC y contractwr yn cymryd effaith at ddibenion talu ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol, bydd y GBC cyntaf ar gyfer y contract hwnnw (a fydd yn ymwneud â gweddill y flwyddyn ariannol honno) yn swm wedi ei flynyddoli at ddibenion cyfrifo, er mai dim ond cyfran o'r swm wedi ei flynyddoli hwnnw fydd mewn gwirionedd yn daladwy yn y rhan-flwyddyn gyntaf.

### GBCau newydd neu GBCau cyntaf pan fo contract GDC wedi ei ddiwygio

2.5. Pan fo contract GDS wedi ei amrywio neu os yw'r GBC cyfan wedi ei amrywio, bydd rhaid canfod Gwerth Blynyddol y Contract newydd ar gyfer y contractwr hwnnw. Os bydd yr amrywiad yn cymryd effaith yn ystod y flwyddyn ariannol, bydd y GBC newydd neu ddiwygiedig ar gyfer y contract hwnnw (a fydd yn ymwneud â gweddill y flwyddyn ariannol honno) yn swm wedi ei flynyddoli at ddibenion cyfrifo, er mai dim ond cyfran o'r swm wedi ei flynyddoli hwnnw fydd mewn gwirionedd yn daladwy ar gyfer y rhan-flwyddyn gyntaf.

**f** Neu yn achos amrywiad cyn 1 Ebrill 2026 neu mewn perthynas â Blaenoriaethau Cenedlaethol, 14 o ddiwrnodau o rybudd.

## Uwchraddio GBCau yn flynyddol

2.6. Mae'r GBC ar gyfer pob blwyddyn ariannol newydd, heb gynnwys y taliad penodedig am fynd i bedwar cyfarfod cydweithredol fel y nodir ym mharagraff 4.57, i'w uwchraddio yn ôl swm canrannol sydd i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru.

2.7. Y ganran a benderfynwyd gan Weinidogion Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27 yw [ ][g].

2.8. Pan fydd y ganran a nodir ym mharagraff 2.7 wedi ei phenderfynu, bwriedir y bydd y DHA hwn yn cael ei ddiwygio (gall hyn fod gydag effaith ôl-weithredol). Yn ymarferol, bydd yr addasiadau hyn yn cael eu cynnwys mewn TGBCau Misol gan Awdurdod Gwasanaethau Busnes y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ("AGB y GIG") ar sail genedlaethol. Ni chaiff y BILl ei hun, felly, addasu'r symiau y mae wedi eu llwytho i systemau talu cyfrifiadurol AGB y GIG yn ôl yr addasiadau hyn.

## Gwerth Blynyddol Gwirioneddol y Contract

2.9. Ar unrhyw bwynt, dylai fod, mewn cysylltiad â phob contract GDC, GBC, wedi ei benderfynu yn unol â'r adran hon. Mae hwn i fod yn swm blynyddol (neu swm wedi ei flynyddoli), ac mae i ddarparu'r sail ar gyfer cyfrifo'r TGBC Misol sy'n daladwy o dan y contract mewn cysylltiad â'r gwasanaethau gorfodol y mae'n ofynnol i'r contractwr eu darparu. Enw'r GBC hwn yw Gwerth Blynyddol Gwirioneddol y Contract (GBGC) ar gyfer y contract hwnnw ar y pwynt hwnnw.

## Talu Taliadau Gwerth Blynyddol y Contract Misol

## Gwerth cychwynnol TGBCau Misol

2.10. Mae gwerth cychwynnol cyntaf TGBCau Misol contractwr i'w benderfynu ar gyfer y dyddiad y mae ei gontract GDC yn cymryd effaith at ddibenion talu. Pan fydd GBGC y contractwr wedi ei ganfod, mae'r swm hwnnw i'w rannu â 12, ac yn ddarostyngedig i baragraff 2.2, y canlyniad yw gwerth cychwynnol cyntaf TGBCau Misol y contractwr.

2.11. Os bu i gontract GDC y contractwr gymryd effaith at ddibenion talu ac eithrio ar ddiwrnod cyntaf mis, mae gwerth cychwynnol ei TGBCau Misol mewn cysylltiad â'r rhan-fis cyntaf o'i gontract i'w gynhyrchu drwy rannu:

(a) nifer y diwrnodau yn ystod y mis y mae'r contract yn cael effaith amdanynt at ddibenion talu; â

(b) cyfanswm nifer y diwrnodau yn y mis hwnnw.

2.12. Bydd y gwerth cychwynnol hwnnw (wedi ei fynegi fel gwerth misol, mewn achosion pan fu i gontract gymryd effaith at ddibenion talu ac eithrio ar ddiwrnod cyntaf y mis) yn parhau i fod y sail ar gyfer cyfrifo gwerth net TGBCau Misol y contractwr, hyd nes bod y gwerth cychwynnol hwnnw yn cael ei ddiwygio nesaf.
wy

## Diwygio gwerth cychwynnol TGBCau Misol

2.13. Bydd rhaid diwygio gwerth cychwynnol TGBCau Misol contractwr pan, am unrhyw reswm, fo ei GBGC wedi ei ddiwygio.

g Nid yw'r ffigur wedi ei bennu ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2026-2027. Bydd y DHA yn cael ei ddiwygio ar ôl i benderfyniad gael ei wneud.

2.14. Os bydd GBGC y contractwr wedi ei ddiwygio ar gyfer dechrau mis, gwerth cychwynnol newydd ei TGBCau Misol (hyd nes y diwygir ei GBGC nesaf) yw ei GBGC newydd wedi ei rannu â 12.

2.15. Pan fydd gwerth cychwynnol TGBCau Misol contractwr wedi ei ganfod ar gyfer unrhyw fis penodol, rhaid i'r BILl fwrw ymlaen i ganfod gwerth net TGBCau Misol y contractwr, sef y swm sydd i'w dalu mewn gwirionedd.

2.16. Pan fo GBGC wedi ei amrywio yn ystod blwyddyn ariannol, mae gwerth net y TGBCau Misol i'w gyfrifo gan ddefnyddio'r fformiwla a ganlyn;

M_newydd =A_newydd - (n * M_hen)12 - n

M = TGBC, A = GBGC, n = nifer y TGBCau a dalwyd eisoes, hen = y ffigur blaenorol, newydd = y ffigur ar ôl ei amrywio.

## Didyniadau mewn cysylltiad â ffioedd GIG

2.17. Rhaid i gleifion sy'n cael triniaeth ddeintyddol berthnasol dalu ffioedd mewn cysylltiad â'r driniaeth honno o dan Atodlen 5 i Reoliadau 2026, oni bai eu bod wedi eu hesemptio rhag talu'r ffi. Mae ffioedd yn adenilladwy mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth o wasanaethau deintyddol gorfodol hyd at gap ar gyfanswm y ffi o £384 y claf mewn cysylltiad â chwrs o driniaeth neu gyrsiau o driniaeth lluosog a gyflenwir yr un pryd.

2.18. Ni chaniateir codi nac adennill ffi mewn cysylltiad â'r canlynol:

(a) darparu gwasanaethau deintyddol o dan Ddeddf 2006, ac eithrio gan gontractwr neu ar ei ran;

(b) carcharor;

(c) darparu gwasanaethau iechyd deintyddol y cyhoedd;

(d) tynnu pwythau;

(e) unrhyw berson sydd ar yr adeg y darperir y gwasanaeth:

   (i) o dan 18 oed,

   (ii) yn 18 oed ac mewn addysg llawnamser,

   (iii) yn feichiog, neu

   (iv) wedi cael babi o fewn y 12 mis cyn i driniaeth ddechrau,

ar yr amod bod declarasiwn ysgrifenedig yn cael ei wneud ar ffurflen a ddarperir at y diben hwnnw gan y BILl.

2.19. Ni chaniateir codi nac adennill ffi mewn cysylltiad â'r canlynol:

(a) yr archwiliad clinigol, unrhyw adroddiad am yr archwiliad hwnnw na'r ddarpariaeth o asesiad a chyngor os na ddarperir triniaeth arall ac os na chyflenwir cyfarpar deintyddol ar yr un pryd pan fo'r claf, ar y diwrnod y mae'r archwiliad yn cael ei gyflawni neu'r asesiad yn cael ei wneud:

   (i) o dan 25 oed, neu

   (ii) wedi cyrraedd 60 oed; na

(b) yr archwiliad a'r asesiad o glaf os na ddarperir triniaeth arall ac os na chyflenwir cyfarpar deintyddol ar yr un pryd, sy'n arwain at:

   (i) dyroddi presgripsiwn,

   (ii) atgyweirio cyfarpar deintyddol, neu

   (iii) atal gwaedu,

ar yr amod bod declarasiwn ysgrifenedig yn cael ei wneud ar ffurflen a ddarperir at y diben hwnnw gan y BILl.

2.20. Ni chaniateir codi nac adennill ffi mewn perthynas ag atgyweirio neu amnewid triniaeth adferol (sef llenwad, llenwad gwreiddyn, mewnosodiad, argaen porslen neu goron) a ddarparwyd gan y contractwr, pan fo'r atgyweirio neu'r amnewid hwnnw yn ofynnol er mwyn sicrhau iechyd geneuol o fewn—

y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r dyddiad y darparwyd y driniaeth adferol, yn achos triniaeth a ddarparwyd mewn apwyntiad gofal brys; neu

y cyfnod o 24 mis sy'n dechrau â'r dyddiad y darparwyd y driniaeth adferol, yn achos triniaeth a ddarparwyd o dan becyn gofal,

oni bai—

(a) o fewn y cyfnod perthnasol, bod person heblaw'r contractwr wedi darparu triniaeth ar y dant y darparwyd y driniaeth adferol mewn cysylltiad ag ef;

(b) bod y contractwr wedi cynghori'r claf ar adeg y driniaeth adferol mai triniaeth adferol dros dro y bwriedid iddi fod, a bod hynny wedi ei gofnodi ar gofnod y claf;

(c) bod y contractwr o'r farn bod y dant y darparwyd y driniaeth adferol mewn cysylltiad ag ef mewn cyflwr sy'n golygu na ellir atgyweirio neu amnewid y driniaeth adferol yn foddhaol a bod angen triniaeth wahanol erbyn hyn; neu

(d) bod angen yr atgyweiriad neu'r amnewidiad o ganlyniad i drawma,

At ddibenion y paragraff hwn, ystyr “atgyweirio” neu “amnewid” yw darparu triniaeth adferol sydd yr un fath neu’n debyg, a bydd unrhyw atgyweirio neu amnewid o'r fath yn cyfrif fel cwrs o driniaeth o dan becyn gofal at ddibenion cyfrifo cyfran y gwasanaethau gorfodol o dan reoliad 17 o Reoliadau 2026, er na chaiff ffi ei gwneud na'i hadennill.

2.21. Y contractwr sy’n casglu’r ffioedd GIG gan gleifion, oni bai bod Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddydau o dan adran 60 o Ddeddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol casglu ffioedd yn ganolog ac, yn yr achos hwnnw, rhaid i’r BILl sicrhau bod y contract yn ei gwneud yn ofynnol i ffioedd gael eu casglu yn unol â’r cyfarwyddydau hynny. Yn unol â’i amod contract a osodir yn rhinwedd Atodlen 3 i Reoliadau 2026, mae’n ofynnol i’r contractwr wneud datganiadau o wybodaeth i’r BILl o fewn cyfnodau amser penodedig ynghylch y gwasanaethau gorfodol a ddarperir ganddo, ac yn y datganiadau hynny rhaid iddo ddarparu gwybodaeth ynghylch a oedd ffi GIG yn daladwy mewn cysylltiad â’r driniaeth honno.

2.22. Rhaid i’r BILl bennu’r dyddiad penodol bob mis erbyn pryd y bydd y datganiadau o wybodaeth hyn yn cael eu prosesu. Y ‘dyddiad rhestru’ yw’r enw ar y dyddiad hwn.

2.23. Gan ddefnyddio’r datganiadau a gyflwynwyd gan y contractwr ers y dyddiad rhestru yn y mis blaenorol, bydd y BILl yn gwneud penderfyniad am y swm sydd i’w ddidynnu y mis hwnnw mewn cysylltiad â ffioedd GIG. Pan fo contractwr wedi darparu gwasanaethau deintyddol pan na fo claf yn glaf esempt ac y mae ffi yn daladwy amdanynt o dan Atodlen 5 i Reoliadau 2026, rhaid lleihau’r taliad a fyddai fel arall yn daladwy gan y BILl i’r darparwr hwnnw yn ôl swm y ffi honno, ni waeth a yw’r darparwr wedi adennill y ffi honno ai peidio.

2.24. Gwerth y TGBC Misol a gynhyrchir ar ôl i’r didyniad hwnnw gael ei wneud, yn ddarostyngedig i baragraff 2.14, yw gwerth gros TGBCau Misol y contractwr ar gyfer y mis hwnnw (h.y. y gwerth cyn didynnu cyfraniadau blwydd-dal pensiwn cyflogai).

## Didyniadau mewn cysylltiad â gordaliadau etc.

2.25. Gall fod angen gwneud didyniadau o’r swm a benderfynir yn unol â pharagraff 2.12 o dan y darpariaethau gweinyddol yn adran 20 o’r DHA hwn, i gymryd i ystyriaeth faterion fel gordaliadau. Mewn termau cyfrifyddu, gall y didyniadau hyn newid gwerth gros y TGBC Misol o

dan sylw neu werth gros taliad arall, ond pa un bynnag, byddant yn newid gwerth net y TGBC Misol o dan sylw.

## Didyniadau mewn cysylltiad ag ardollau Pwyllgor Deintyddol Lleol (PDLl)

2.26. Gall y BILl fod wedi cydnabod PDLl ar gyfer ei ardal, yn unol ag adran 69 o Ddeddf 2006. Pan fo wedi gwneud hynny, bydd y pwyllgor hwnnw yn cynrychioli'r Deintydd-Gyflawnwyr a gyflogir neu a gymerir ymlaen gan y contractwr. Yn yr amgylchiadau hyn, mae gan y BILl hawlogaeth, yn rhinwedd adran 69(9)(b) o Ddeddf 2006, i ddidynnu swm, a adwaenir yn gyffredin fel yr ardoll, o'r taliadau a wneir i'r contractwr o dan ei gontract GDC mewn cysylltiad â threuliau'r pwyllgor. Mae'r didyniad hwnnw i'w wneud fel ei fod yn lleihau gwerth net TGBCau Misol y contractwr.

## Didyniadau mewn cysylltiad â chyfraniadau blwydd-dal pensiwn cyflogai

2.27. Mae'r Deintydd-Gyflawnwyr a gyflogir neu a gymerir ymlaen gan y contractwr yn debygol o fod yn aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG, a'u Hawdurdod Cyflogi at ddibenion y Cynllun hwnnw fydd, at ddibenion presennol, y BILl (gall fod ganddynt gyflogaeth mewn cyd-destun arall sydd hefyd yn rhoi hawlogaeth iddynt i bensiwn Cynllun Pensiwn y GIG, ond dylai cyfraniadau blwydd-dal pensiwn ar gyfer yr enillion pensiynadwy sy'n deillio o'r gyflogaeth honno gael eu gwneud mewn man arall). Bydd Enillion Pensiynadwy Deintydd-Gyflawnwyr sydd i ddeillio o gontract GDC y contractwr hwnnw ym mhob blwyddyn ariannol wedi eu cyfyngu i ganran benodedig o werth y contract hwnnw ar gyfer y flwyddyn ariannol honno, ar ôl didynnu unrhyw daliadau absenoldeb rhiant, taliadau absenoldeb oherwydd salwch, taliadau ad-dalu ardrethi annomestig, taliadau ad-dalu ffioedd labordy, neu Daliadau Oedran Misol sy'n daladwy o dan y contract hwnnw.

2.28. Bydd angen i bob BILl wneud yr holl ddidyniadau mewn cysylltiad â chyfraniadau blwydd-dal pensiwn cyflogai (gan gynnwys Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Prynu Arian (CGYPAau)) sy'n daladwy mewn cysylltiad ag Enillion Pensiynadwy Deintydd-Gyflawnwyr sy'n deillio o bob contract GDC a ddelir ganddo.

2.29. Yn unol â hynny, rhaid iddo ddidynnu'r cyfraniadau hynny o TGBCau Misol y contractwr. Eglurir y broses o gyfrifo a gwneud yr holl ddidyniadau hyn yn Rhan 4. Os yw'n Awdurdod Cyflogi ar gyfer unrhyw Ddeintydd-Gyflawnydd a gyflogir neu a gymerir ymlaen gan y contractwr, caiff hefyd ddidynnu o TGBCau Misol y contractwr unrhyw gyfraniadau blwydd-dal pensiwn cyflogai (gan gynnwys Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Prynu Arian (CGYPAau)) sy'n ddyledus gan y Deintydd-Gyflawnydd ond na wnaed cyfraniadau pensiwn blwydd-dal mewn man arall ar eu cyfer, ar yr amod bod y BILl wedi cymryd camau rhesymol i'w fodloni ei hun nad oes trefniadau eraill wedi eu gwneud i dalu'r cyfraniadau hynny.

## Gwerth net TGBCau Misol y contractwr

2.30. Gwerth gros TGBCau Misol contractwr, minws unrhyw ddidyniadau angenrheidiol a grybwyllir ym mharagraffau 2.7 i 2.18, a minws unrhyw ddidyniadau gwirfoddol (fel cyfraniadau i Urdd Deintyddol Prydain), y mae'r contractwr wedi gofyn iddynt gael eu gwneud, yw gwerth net TGBCau Misol y contractwr, sef y swm sydd i'w dalu mewn gwirionedd. Daw'r swm hwn yn daladwy ar ddiwrnod gwaith cyntaf y mis ar ôl y mis y mae'r TGBC Misol yn ymwneud ag ef.

## Amodau sy'n gysylltiedig â TGBCau Misol

2.31. Nid yw TGBCau Misol, nac unrhyw ran o daliadau o'r fath, ond yn daladwy os yw'r contractwr yn bodloni'r amodau a ganlyn:

(a) rhaid i'r contractwr roi ar gael unrhyw wybodaeth nad oes gan y BILl mohoni ond y mae ei hangen arno (gan gynnwys y datganiadau sy'n ofynnol yn rhinwedd Atodlen 3 i Reoliadau 2026), a honno'n wybodaeth sydd gan y contractwr neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo ei chael, er mwyn cyfrifo TGBCau Misol y contractwr;

(b) rhaid i'r contractwr roi ar gael i'r BILl amcangyfrif rhesymol o'r Enillion Pensiynadwy misol net (h.y. ar ôl didynnu unrhyw Enillion Pensiynadwy y gellir eu priodoli i unrhyw Daliad Oedran Misol) pob Deintydd-Gyflawnydd a gyflogir neu a gymerir ymlaen ganddo, a rhaid iddo hysbysu'r BILl am unrhyw newidiadau priodol i'r amcangyfrif hwnnw; ac

(c) Rhaid i'r holl wybodaeth a ddarperir yn unol â'r paragraff hwn fod yn gywir.

2.32. Os bydd y contractwr yn torri unrhyw un neu ragor o amodau ei TGBCau Misol a nodir yn y DHA hwn (gan gynnwys yr amodau a nodir ym mharagraff 2.20), caiff y BILl, mewn amgylchiadau priodol, gadw yn ôl TGBC Misol cyfan neu unrhyw ran ohono sydd fel arall yn daladwy.

## Rhestr Taliadau Misol

2.33. Ar y diwrnod y daw TGBCau Misol yn ddyledus, neu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi hynny, rhaid i'r BILl anfon at y contractwr Restr Taliadau Misol a fydd yn cynnwys y canlynol (ond na fydd yn gyfyngedig iddynt):

(a) GBGC y contractwr;

(b) swm gwerth cychwynnol TGBCau Misol y contractwr, cyn unrhyw ddidyniadau a ganiateir;

(c) swm y didyniadau a ganiateir, a fydd wedi eu pennu mewn rhannau gan gynnwys:

(i) swm y ffioedd GIG y mae'r BILl wedi penderfynu, yn unol â pharagraff 2.12, y dylai'r contractwr fod wedi eu casglu mewn cysylltiad â thriniaeth sydd wedi cyfrif neu a fydd yn cyfrif tuag at y gwasanaethau gorfodol y mae'r contractwr i'w darparu o dan ei gontract GDC; a

(ii) swm unrhyw ddidyniadau eraill y mae angen eu gwneud i'r TGBCau Misol o dan y contract neu yn unol â'r DHA hwn (er enghraifft, y didyniadau a grybwyllir ym mharagraffau 2.14 a 2.18), ynghyd â'r rheswm dros unrhyw ddidyniad o'r fath;

(d) swm y TGBC Misol ar ôl y didyniadau a ganiateir;

(e) unrhyw daliadau eraill sy'n daladwy i'r contractwr yn unol â'r Cyfarwyddydau hyn ar y dyddiad dyledus hwnnw;

(f) Enillion Pensiynadwy misol net amcangyfrifedig pob Deintydd-Gyflawnydd sy'n cyflawni gwasanaethau o dan y contract, h.y. ar ôl didynnu unrhyw Enillion Pensiynadwy sy'n briodoladwy i unrhyw Daliad Oedran Misol;

(g) o ran y contractwr, y cyfrannau o wasanaethau gorfodol:

(i) y mae wedi ei gontractio i'w darparu yn ystod y flwyddyn ariannol berthnasol;

(ii) y mae wedi eu darparu hyd yma yn ystod y flwyddyn ariannol, ar sail y data a gyflwynwyd i'r BILl gan y contractwr, yn unol ag amodau ei gontract a osodir yn rhinwedd Atodlen 3 i Reoliadau 2026; a

(iii) sy'n weddill ganddo i'w darparu yn ystod y flwyddyn ariannol, wedi eu mynegi fel canrannau yn erbyn pob un o'r chwe chategori gwasanaeth gorfodol.

2.34. Yn ymarferol, yn unol â'r Rheoliadau Swyddogaethau, bydd y Rhestr Taliadau Misol yn cael ei hanfon at y contractwr gan AGB y GIG, a fydd hefyd yn anfon copi at y BILl.

## Adroddiad Cysoni Blynyddol y Contract

2.35. Rhaid i’r BILl, erbyn 18 Mai ym mhob blwyddyn ariannol, anfon at y contractwr Adroddiad Cysoni Blynyddol y Contract, pa un ai fel rhan o’r adroddiad blynyddol a’r adolygiad blynyddol sy’n ofynnol gan Atodlen 3 i Reoliadau 2026**h** neu fel arall, a fydd yn cynnwys y canlynol (ond na fydd yn gyfyngedig iddynt), mewn cysylltiad â’r flwyddyn ariannol flaenorol:

(a) cyfanswm gwerth contract GDC y contractwr, ar ôl didynnu:

(i) unrhyw daliadau mewn cysylltiad ag absenoldeb rhiant neu absenoldeb oherwydd salwch neu unrhyw Daliadau Oedran Misol (mae’r rhain yn daliadau sy’n bensiynadwy ond nid ydynt wedi eu cynnwys yng nghyfrifiad Terfyn Uchaf Enillion Pensiynadwy y contract GDC), a

(ii) unrhyw daliadau ad-dalu ardrethi annomestig (mae’r rhain yn daliadau nad ydynt yn bensiynadwy nac wedi eu cynnwys yng nghyfrifiad Terfyn Uchaf Enillion Pensiynadwy y contract GDC);

(b) cyfanswm gwerthoedd cychwynnol TGBCau Misol y contractwr;

(c) cyfanswm gwerth y didyniadau a wnaed i’r TGBCau Misol a dalwyd i’r contractwr, a fydd wedi eu pennu mewn dwy ran:

(i) cyfanswm y ffioedd GIG a ddidynnwyd, a

(ii) cyfanswm unrhyw ddidyniadau eraill a wnaed o dan y contract neu yn unol â’r DHA hwn;

(d) Enillion Pensiynadwy amcangyfrifedig pob Deintydd-Gyflawnydd a gyflawnodd wasanaethau o dan ei gontract GDC, ar ôl didynnu unrhyw Enillion Pensiynadwy sy’n briodoladwy i unrhyw Daliad Oedran Misol a dalwyd mewn cysylltiad â’r Deintydd-Gyflawnydd;

(e) o ran y contractwr, y cyfrannau o wasanaethau gorfodol:

(i) y cafodd y contractwr ei gontractio i’w darparu, wedi eu mynegi fel canrannau yn erbyn pob un o’r chwe chategori gwasanaeth gorfodol;

(ii) y bu i’r contractwr eu darparu mewn gwirionedd, yn seiliedig y data a gyflwynwyd i’r BILl gan y contractwr, yn unol ag amodau ei gontract a osodir yn rhinwedd Atodlen 3 i Reoliadau 2026, wedi eu mynegi fel canrannau yn erbyn pob un o’r chwe chategori gwasanaeth gorfodol; a

(iii) pan fo’n berthnasol, y diffyg neu’r gorgyflenwad ym mhob categori ac yn gyffredinol;

(f) manylion unrhyw addasiadau ariannol a wnaed yn ystod y flwyddyn yn unol â Rhan 4 o’r DHA hwn;

(g) manylion unrhyw gyfnodau unioni y cytunwyd arnynt a’u canlyniadau.

2.36. Bydd Adroddiad Cysoni Blynyddol y Contract yn seiliedig ar ddatganiad cysoni blynyddol ynghylch y taliadau o dan y contract GDC a anfonir gan AGB y GIG i’r BILl yn unol â’r Rheoliadau Swyddogaethau.

## Cyfraniadau blwydd-dal pensiwn

## Cyfraniadau blwydd-dal pensiwn cyflogwr Deintydd-Gyflawnwyr

2.37.O dan Reoliadau Cynllun Pensiwn y GIG(**i**), a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Newydd y GIG(**j**), bydd BILlau yn parhau i fod yn atebol am dalu cyfraniadau blwydd-dal pensiwn y cyflogwr mewn cysylltiad ag Enillion Pensiynadwy ymarferwyr deintyddol a gyflogir neu a gymerir ymlaen gan gontractwr, sy'n aelodau o'r Cynllun.

**h** Sy'n ofynnol yn gynharach na 18 Mai yn unol â rheoliad 24 o Reoliadau 2026.
**i** O.S. 1995/300.
**j** O.S. 2008/653.

2.38. Yn ymarferol, yn rhinwedd cofnod 26(a) yng ngholofn 2 yr Atodlen i'r Rheoliadau Swyddogaethau, bydd un rhan o AGB y GIG (y rhan sy'n gweithredu, i bob pwrpas, fel asiant i'r BILl), yn gyfrifol am anfon i ran arall o AGB y GIG (y rhan sy'n gweithredu fel gweinyddydd y Cynllun Pensiwn) gyfraniadau blwydd-dal pensiwn y cyflogwr sy'n ddyledus gan y BILl mewn cysylltiad â'r ymarferwyr deintyddol math 1 a math 2 hyn. Bydd Gweinidogion Cymru—

(a) yn rhoi ar gael i'r rhan o AGB y GIG sy'n gweithredu, i bob pwrpas, fel asiant i BILlau yn y mater hwn yr adnoddau y mae eu hangen arni i anfon y cyfraniadau hyn ymlaen,

(b) yn didynnu o'u dyraniadau i BILlau symiau sy'n gyfwerth ag atebolrwyddau'r BILlau sydd wedi eu cyflawni yn y modd hwn.

## Cyfraniadau blwydd-dal pensiwn cyflogai a Chyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Prynu Arian Deintydd-Gyflawnwyr

2.39. O ran y cyfraniadau blwydd-dal pensiwn cyflogai, ac unrhyw CGYPAau, bydd y trefniadau a ganlyn yn gymwys yn achos ymarferwyr deintyddol sy'n aelodau o'r Cynllun—

(a) bydd rhaid i'w cyfraniadau blwydd-dal pensiwn cyflogai mewn cysylltiad â'u Henillion Pensiynadwy gael eu didynnu gan y BILl o TGBCau Misol y contractwr; a

(b) bydd rhaid i unrhyw CGYPAau gael eu didynnu gan y BILl o TGBCau Misol y contractwr.

2.40. Yn ymarferol, bydd y didyniadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 2.38 yn gyffredinol yn cael eu gwneud gan AGB y GIG, y rhoddwyd y pŵer iddo i wneud y didyniadau hyn yn rhinwedd cofnodion 26(a) a 28(a) o'r Atodlen i'r Rheoliadau Swyddogaethau (er bod y BILl yn parhau yn y pen draw i fod yn gyfrifol am gyfrifo'r didyniadau ac am sicrhau bod y didyniadau a wneir yn gywir). Mae'r didyniadau hyn i'w gwneud mewn dau gam.

## Didyniadau misol mewn cysylltiad â chyfraniadau blwydd-dal pensiwn cyflogai Deintydd-Gyflawnwyr

2.41. Yn gyntaf, fel y datgenir ym mharagraffau 2.39 i 2.40 uchod, bydd angen gwneud didyniadau mewn cysylltiad ag ymarferwyr deintyddol bob mis o TGBCau Misol y contractwr. Mae'r didyniadau hyn i gael eu seilio ar amcangyfrif rhesymol o gyfran misol atebolrwydd blynyddol pob ymarferydd deintyddol amcangyfrif gan y contractwr mewn cysylltiad â'r canlynol—

(a) y cyfraniadau blwydd-dal pensiwn cyflogai sy'n daladwy i'r rhan o AGB y GIG sy'n gweithredu fel gweinyddydd y Cynllun Pensiwn, a

(b) unrhyw CGYPAau sy'n daladwy i Ddarparwr CGYPAau.

2.42. Rhaid i'r BILl gymryd pob cam rhesymol i gytuno ar swm y didyniadau gyda'r contractwr a rhaid iddo, pan ofynnir iddo wneud hynny gan y contractwr, gyfiawnhau'n briodol swm y didyniadau misol. Rhaid iddo gadw'r symiau hynny o dan adolygiad, i gymryd i ystyriaeth newidiadau arwyddocaol i incwm y contractwr.

2.43. Rhaid anfon swm sy'n gyfwerth â'r swm misol y mae AGB y GIG, sy'n gweithredu i bob pwrpas fel asiant i BILlau yn y mater hwn, yn ei ddidynnu i'r rhan o AGB y GIG sy'n gweithredu fel gweinyddydd y Cynllun Pensiwn, ac i unrhyw Ddarparwr CGYPAau perthnasol, yn ddim hwyrach nag–

(a) yn achos cyfraniadau blwydd-dal pensiwn cyflogai, y pedwerydd diwrnod ar bymtheg o'r mis ar ôl y mis y mae'r enillion cysylltiedig yn ymwneud ag ef, neu

(b) yn achos CGYPAau, y seithfed diwrnod ar ôl talu'r taliad y cawsant eu didynnu ohono.

## Addasiadau diwedd blwyddyn

2.44. Ar ôl diwedd unrhyw flwyddyn ariannol, bydd y BILl yn penderfynu gwerth contract GDC y contractwr, ar ôl didynnu—

(a) unrhyw daliadau mewn cysylltiad ag absenoldeb rhiant neu absenoldeb oherwydd salwch neu unrhyw Daliadau Oedran Misol (mae'r rhain yn daliadau sy'n bensiynadwy ond nid ydynt wedi eu cynnwys yng nghyfrifiad Terfyn Uchaf Enillion Pensiynadwy y contract GDC), a

(b) unrhyw daliadau ad-dalu ardrethi annomestig (mae'r rhain yn daliadau nad ydynt yn bensiynadwy nac wedi eu cynnwys yng nghyfrifiad Terfyn Uchaf Enillion Pensiynadwy y contract GDC);

2.45. Bydd y swm hwn yn cael ei gynnwys yn Adroddiad Cysoni Blynyddol y Contract. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol wedi canfod, yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn y GIG a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Newydd y GIG, pa ganran o'r swm net hwnnw y gellir ei hystyried yn Enillion Pensiynadwy o dan y contract hwnnw. Drwy gymhwyso'r ganran honno i'r swm net hwnnw, bydd modd i'r BILl, a'r contractwr, benderfynu ar Derfyn Uchaf yr Enillion Pensiynadwy ar gyfer y contract hwnnw ar gyfer y flwyddyn ariannol honno.

2.46. Os yw unrhyw Ddeintydd-Gyflawnydd a gyflogir neu a gymerir ymlaen gan gontractwr yn aelod o Gynllun Pensiwn y GIG, mae'n amod o TGBCau Misol y contractwr hwnnw fod y contractwr, erbyn y dyddiad a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â pharagraff 5A(1) o Atodlen 2 i Reoliadau Cynllun Pensiwn y GIG(**k**), a rheoliad 3.A.12(1) o Reoliadau Cynllun Pensiwn Newydd y GIG, yn anfon i'r BILl ddatganiad safonol (sydd wedi ei osod yn genedlaethol(**l**) ac sydd ar gael yn electronig) yn pennu, ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiad yn ymwneud â hi, yr Enillion Pensiynadwy sy'n deillio o'i gontract GDC ar gyfer pob Deintydd-Gyflawnydd y bu iddo ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen yn ystod y flwyddyn ariannol honno.. Ni chaiff y cyfansymiau hynny mewn cysylltiad â phob cyflawnydd unigol, o'u cymryd gyda'i gilydd, fod yn fwy, ond cânt fod yn llai, na Therfyn Uchaf Enillion Pensiynadwy'r contractwr ar gyfer y flwyddyn ariannol honno.

2.47. Mae'r swyddogaethau o ran—

(a) cael y datganiadau hyn,

(b) estyn y dyddiad cau ar gyfer cael y datganiadau hyn,

(c) derbyn datganiadau newydd mewn amgylchiadau priodol,

(d) amrywio'r symiau a bennir yn y datganiadau mewn amgylchiadau priodol,

(e) penderfynu dilysrwydd y datganiadau,

oll yn swyddogaethau y caniateir bellach iddynt gael eu cyflawni gan AGB y GIG, sy'n gweithredu i bob pwrpas fel asiant i'r BILl (cofnod 26 yng ngholofnau 2 a 3 o'r Atodlen i'r Rheoliadau Swyddogaethau).

2.48. Pan fydd yr Enillion Pensiynadwy mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol honno ar gyfer pob Deintydd-Gyflawnydd a gyflogwyd neu a gymerwyd ymlaen gan gontractwr wedi eu hysbysu i'r BILl, rhaid i'r BILl (neu os gellir gwneud yr addasiadau drwy amrywio taliadau contract GDC, AGB y GIG, sydd i bob pwrpas yn gweithredu ar ei ran) wneud y canlynol–

(a) os oedd cyfraniadau blwydd-dal pensiwn cyflogai (gan gynnwys CGYPAau) a ddidynnwyd o TGBCau Misol y contractwr yn ystod y flwyddyn ariannol honno mewn cysylltiad â'r enillion hynny—

   (i) ddim yn talu cost yr holl gyfraniadau blwydd-dal pensiwn cyflogai a oedd yn daladwy gan Ddeintydd-Gyflawnwyr y contractwr mewn cysylltiad â'r enillion hynny–

**k** Rhagwelir y bydd y dyddiad hwn fis o ddyddiad derbyn Adroddiad Cysoni Blynyddol y Contract
**l** Mae'r mewn fformat a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â pharagraff 5A(1) o Atodlen 2 i Reoliadau Cynllun Pensiwn y GIG.

(aa) didynnu’r swm sydd heb ei dalu o unrhyw TGBCau Misol sy’n daladwy, neu o gyfres o TGBCau Misol sy’n daladwy, i’r contractwr, neu

(bb) cael taliad (pan na fo modd gwneud didyniad o’r fath) gan y contractwr am y swm sydd heb ei dalu, ac mae’n amod o’r holl daliadau a wneir yn unol â’r DHA hwn fod rhaid i’r contractwr dalu i’r BILl y swm sydd heb ei dalu, neu

(ii) yn fwy na’r swm a oedd yn daladwy mewn cysylltiad â chyfraniadau blwydd-dal cyflogai, ad-dalu’r swm gormodol i’r contractwr yn brydlon (oni bai, yn achos swm gormodol mewn cysylltiad â CGYPAau, fod y Deintydd-Gyflawnydd yn dewis i’r swm hwnnw fod yn gyfraniad pellach a bod ganddo hawlogaeth i ddewis felly), a

(b) anfon unrhyw gyfraniadau blwydd-dal pensiwn cyflogai sydd heb eu talu ac sy’n ddyledus mewn cysylltiad â’r enillion hynny i’r rhan o AGB y GIG sy’n gweithredu fel gweinyddydd y Cynllun Pensiwn neu i’r Darparwr CGYPAau perthnasol (gan roi sylw i’r taliadau y mae eisoes wedi eu gwneud ar gyfrif mewn cysylltiad â’r Deintydd-Gyflawnwyr hynny ar gyfer y flwyddyn ariannol honno).

RHAN 3

TALIADAU AM WASANAETHAU GORFODOL

## Taliadau am Wasanaethau Gorfodol a Ddarperir yn ôl Cyfrannau

3.1. O dan Reoliadau 2026, rhaid i gontractwyr ddarparu'r gwasanaethau gorfodol a ganlyn:

(a) Mynediad brys ar gyfer cleifion newydd, fel y nodir yn Rhan 1 o Atodlen 1 i Reoliadau 2026;

(b) Apwyntiadau adalw ar gyfer cleifion y mae angen apwyntiadau adalw arnynt rhwng 18 a 24 mis;

(c) Asesiadau ar gyfer cleifion newydd sy'n deillio o'r Porth Mynediad Deintyddol, fel y nodir yn Rhan 2 o Atodlen 1 i Reoliadau 2026;

(d) Pecynnau gofal, fel y nodir yn Rhan 3 o Atodlen 1 i Reoliadau 2026;

(e) Gwasanaethau atal, fel y nodir yn Rhan 4 o Atodlen 1 i Reoliadau 2026; ac

(f) Blaenoriaethau cenedlaethol, fel y nodir yn Rhan 5 o Atodlen 1 i Reoliadau 2026 yn unol â chyfarwyddydau.

3.2. Mae'r cyfrannau safonol o wasanaethau gorfodol fel a ganlyn:

(a) 7% ar gyfer triniaeth frys ar gyfer cleifion newydd;

(b) 3% ar gyfer apwyntiadau adalw rhwng 18 a 24 mis;

(c) 10% ar gyfer asesiadau cleifion newydd;

(d) 70% i ddarparu pecynnau gofal;

(e) 5% ar gyfer gwasanaethau atal; ac

(f) 5% ar gyfer blaenoriaethau lleol neu genedlaethol.

3.3. Mae'r gyfran o bob gwasanaeth gorfodol, wedi ei mynegi fel canran, sydd i'w darparu gan y contractwr tra bo'r contract yn effeithiol yn ymwneud â'r canlynol:

(a) pan fo'r contract yn dechrau ar 1 Ebrill, pob blwyddyn ariannol, neu

(b) pan fo'r contract yn dechrau ar ddyddiad ac eithrio 1 Ebrill, gweddill y flwyddyn ariannol y mae'r contract yn dechrau ynddi, ac yna ym mhob blwyddyn ariannol wedi hynny.

## Mynediad Brys ar gyfer Cleifion Newydd (7% o GBC)

3.4. Rhaid i'r BILl drefnu i bob contractwr gael taliad cydnabyddiaeth am ei gyfranogiad yn y Rhaglen Apwyntiadau Mynediad Brys.

3.5. Gwerth pob apwyntiad gofal brys ar gyfer cleifion newydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-2027 yw £75..

3.6. Mae'r taliad ar gyfer pob apwyntiad mynediad brys unigol ar gyfer claf newydd a ddarperir gan y contractwr i fod yn werth 7% o GBC y contractwr (oni bai bod y gyfran hon wedi ei hamrywio ac, os felly, y gyfran ganrannol newydd ydyw). Er mwyn canfod nifer gofynnol blynyddol yr apwyntiadau mynediad brys, gellir cymhwyso'r canlynol: £GBC x 0.07 ÷ (y gwerth a nodir ym mharagraff 3.5).

3.7. Mae'r contract yn cynnwys darpariaeth:

(a) i'r contractwr gael ei dalu am unrhyw apwyntiadau gofal brys ar gyfer cleifion newydd a gollir neu apwyntiadau gofal brys ar gyfer cleifion newydd a ddiweddir yn gynnar cyhyd ag y bo amodau penodol yn gymwys, a

(b) i’r contractwr gael ei dalu am unrhyw apwyntiadau gofal brys ar gyfer cleifion newydd nas llenwir.

3.8. Mae hyn yn golygu, oni bai bod apwyntiadau gofal brys anghyflawn ar gyfer cleifion newydd pan na fo modd i’r contractwr gydymffurfio â’r amodau sy’n caniatáu ar gyfer taliad (ac os felly, bydd gwerth yr apwyntiadau hynny’n cael ei ddidynnu), fel y gwelir isod, bydd y BILl yn talu i’r contractwr 7% o’r GBC am ddarparu’r gwasanaeth gorfodol hwn.

3.9.Pan fo apwyntiadau gofal brys anghyflawn ar gyfer cleifion newydd pan na chydymffurfiwyd â’r amodau sy'n caniatáu talu a nodir yn Atodlen 1 o Reoliadau 2026 (hynny yw – nid yw’r contractwr yn gallu dangos ei fod wedi gwneud ymdrechion digonol, gan roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru, i sicrhau presenoldeb y darpar glaf ac mae wedi ysgrifennu at y darpar glaf i egluro na ellir aildrefnu’r apwyntiad gofal brys a bod angen i’r darpar glaf wneud cais wneud cais eto drwy’r Rhaglen Apwyntiadau Mynediad Brys), rhaid i'r BILl nodi'r didyniad perthnasol yn yr Adroddiad Taliadau Misol.

## Asesiadau Cleifion Newydd drwy’r Porth Mynediad Deintyddol (10% o GBC)

3.10. Rhaid i’r BILl drefnu i bob contractwr gael taliad cydnabyddiaeth am ddarparu asesiadau cleifion newydd.

3.11. Gwerth pob asesiad claf newydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-2027 yw £54.42.

3.12. Mae’r taliad ar gyfer asesiadau cleifion newydd a ddarperir gan y contractwr i fod yn werth 10% o GBC y contractwr (oni bai bod y gyfran hon wedi ei hamrywio ac, os felly, y gyfran ganrannol newydd ydyw). Er mwyn canfod nifer gofynnol blynyddol yr asesiadau cleifion newydd, gellir cymhwyso’r canlynol: £GBC x 0.10 ÷ (y gwerth a nodir ym mharagraff 3.11).

## Y mathau o becynnau gofal a’u gwerthoedd

3.13. Ni all BILl ond talu contractwr am ddarparu pecyn gofal o fath a restrir yn Atodlen 2 i Reoliadau 2026 neu fath arall o apwyntiad fel y nodir isod.

3.14. Mae gwerthoedd y taliadau am becynnau gofal ar gyfer blwyddyn ariannol 2026 i 2027 fel a ganlyn:

| Y Math o Becyn Gofal | Taliad | Disgrifiad |
|---|---|---|
| Pecyn Gofal Adferol Syml | £72.06 | Mae'n cynnwys llenwadau, coronau dros dro, coronau Hall ac echdynnu hyd at gyfanswm o 4 dant. |
| Pecyn Gofal Adferol Helaeth | £137.50 | Fel y pecyn adferol syml ar gyfer 5 i 8 dant. Deunydd cyfansawdd ar gyfer dannedd blaen (dant llygad i ddant llygad). Ar gyfer dannedd ôl, defnyddir deunyddiau clinigol briodol, sy’n cynnwys amalgam a deunyddiau amgen yn lle amalgam. |
| Pecyn Gofal Periodontol | £97.06 | Asesir mynediad pan gymerir claf ymlaen ar ôl asesiad, ond rhaid i’r claf |

| | | |
|---|---|---|
| | | gyflawni sgôr plac o 30% o leiaf erbyn y trydydd ymweliad Addysg Iechyd Geneuol. Mae'n cynnwys sgôr plac a chyfarwyddyd hylendid geneuol wedi ei deilwra, siart pocedi chwe phwynt, dileu plac mecanyddol proffesiynol a digrammenu pocedi. Disgwylir i ddeiliaid contract ddilyn canllawiau, megis canllawiau Cymdeithas Periodontoleg Prydain ar reoli cleifion â chlefyd periodontol. |
| Pecyn Gofal Dannedd Gosod | £172.80 | Nid yw'n cynnwys ffioedd labordy (sydd i'w talu'n uniongyrchol gan y claf, oni bai ei fod wedi ei esemptio rhag ffioedd GIG). Mae'n cynnwys dannedd gosod uchaf ac isaf, gan gynnwys dannedd gosod Crôm Cobalt, os oes rheswm clinigol amdanynt |
| Pecyn Gofal Sefydlogi | £150 | Ar gyfer cleifion sy'n ymgyflwyno â 7+ dant pydredig, pan fo gan o leiaf ddau o'r dannedd bydredd sy'n estyn yn agos at y bywyn neu i mewn iddo a phan fo'r claf yn awyddus i ymgysylltu. Mae'n cynnwys echdyniadau, mesurau atal DBOH, triniaethau adferol canolraddol ionomer gwydr, bywyndrychiad, gwaredu ffactorau sy'n dal plac. |
| Pecyn Sianel y Gwreiddyn ar gyfer Dannedd Blaen | £182.36 | Ar gyfer hyd at ddau ddant 1-3, gan gynnwys unrhyw driniaethau adferol parhaol. |
| Pecyn Sianel y Gwreiddyn ar gyfer Dannedd Ôl | £365.44 | Pecyn sianel y gwreiddyn ar gyfer dannedd ôl a gogilddannedd, ar gyfer hyd at ddau ddant. Mae'n cynnwys ail gilddannedd os yw'r dant yn strategol angenrheidiol i gynnal deintiad (e.e. cleifion heb gynhaliaeth ôl, rheswm meddygol dros ei gadw etc.). Mae'n cynnwys unrhyw orchuddio cysbau sydd ei angen, ac eithrio ffi labordy (a delir gan gleifion, oni bai eu bod yn esempt rhag ffioedd GIG). |
| Pecyn Gofal Coronau a Phontydd, Mewnosodiadau, Arosodiadau ac Argaenau | £280.88 | Nid yw'n cynnwys triniaethau adferol dros dro. Pont â hyd at dair uned neu hyd at ddwy goron neu pan ddarperir coron a phont, byddai pont gantilifrog sengl a choron sengl yn cael eu darparu |

| | | |
|---|---|---|
| | | o dan un pecyn gofal. Mae'n cynnwys modelau astudio, pyst a chreiddiau etc. Nid yw'n cynnwys ffioedd labordy. |
| Pecyn Gofal Amrywiol | £50 | Ar gyfer triniaeth ac ymyriadau i gleifion sy'n dod y tu allan i becyn gofal cyfredol neu'r tu allan i'r cyfnod gwarant. Mae'n cynnwys: atgyweirio/ychwanegu/ail-leinio dannedd gosod, esmwytho dannedd gosod, modelau astudio, cyfarpar codi brathiad, biopsi, atgyweirio/ailsmentio coron, pont neu argaen, tynnu pwythau, pericoronitis, llid briwiol madreddol acíwt y deintgig, materion brys orthodontig, atal gwaedlif (ar gyfer echdyniadau a wnaed y tu allan i becyn gofal), soced sych (ar gyfer echdyniadau a wnaed y tu allan i becyn gofal). Nid yw'n cynnwys unrhyw ffi labordy. |

Apwyntiadau eraill:

| | | |
|---|---|---|
| Apwyntiadau Mynediad Brys | | |
| Pecyn Gofal Brys | £75.00 | Dylai apwyntiadau brys gynnwys asesiad o iechyd geneuol (gan gynnwys meinweoedd meddal) ac atgyfeiriadau ymlaen pan fo'n briodol. Dylent leddfu poen a/neu atal dirywiad sylweddol, gydag atgyfeiriad ymlaen os oes angen. Dylai fel arfer ddarparu datrysiad hirdymor. Pan fo'n briodol, gyda chydsyniad y claf, dylent gynnwys triniaeth ddiffiniol barhaol, gan gynnwys triniaethau adferol. |
| Asesiadau Cleifion Newydd | | |
| Asesiad Claf Newydd | £54.42 | Mae'n cynnwys asesiad iechyd a chlinigol cynhwysfawr (gan gynnwys meinweoedd meddal) a radiograffeg o fewn y geg. Mae gwasanaethau atal yn cynnwys cyngor am ddeiet a chyfarwyddyd hylendid geneuol (ar sail archwiliad clinigol), rheoli ffactorau risg gan gynnwys cyngor ar leihau ysmygu/alcohol/siwgr, gosod fflworid ar wyneb y dannedd, |

| | | |
|---|---|---|
| | | presgripsiwn past dannedd fflworid crynodiad uchel a selyddion rhychau (ar gyfer pydredd enamel) fel y bo’n briodol. |
| Asesiad Claf Newydd (plentyn) | O dan 1 oed £80<br>1-4 oed £75<br>5-12 oed £70<br>**13-17 oed £60** | Mae’n cynnwys asesiad iechyd a chlinigol cynhwysfawr (gan gynnwys meinweoedd meddal) a radiograffeg o fewn y geg. Mae gwasanaethau atal yn cynnwys cyngor am ddeiet a chyfarwyddyd hylendid geneuol (ar sail archwiliad clinigol), rheoli ffactorau risg gan gynnwys cyngor ar leihau ysmygu/alcohol/siwgr, gosod fflworid ar wyneb y dannedd, presgripsiwn past dannedd fflworid crynodiad uchel a selyddion rhychau (ar gyfer pydredd enamel) fel y bo’n briodol. |
| Adalw | £50.00 yr ymweliad | Mae cleifion sy’n cael archwiliad adalw i’w rhoi ar becyn adalw yn unol â chanllawiau NICE. Mae'n ofynnol datgan ar y ffurflen FP17 pa ysbaid adalw y mae’r claf arni ar hyn o bryd. Rhaid cynnal proses fonitro glinigol gadarn i gadarnhau bod y claf ar y pecyn adalw priodol ar sail asesiad risg. |
| Adalw (plentyn) | £55.00 yr ymweliad | Mae cleifion sy’n cael archwiliad adalw i’w rhoi ar becyn adalw yn unol â chanllawiau NICE. Mae'n ofynnol datgan ar y ffurflen FP17 pa ysbaid adalw y mae’r claf arni ar hyn o bryd. Rhaid cynnal proses fonitro glinigol gadarn i gadarnhau bod y claf ar y pecyn adalw priodol ar sail asesiad risg. Uchafswm o 4 y flwyddyn neu 3 yn dilyn ffi gychwynnol am asesiad claf newydd. |

3.15. Er mwyn bod yn gymwys i gael taliad, rhaid i bob pecyn gynnwys y canlynol:

(a) y gwasanaethau perthnasol a ddangosir yn yr ail golofn o’r tabl yn Atodlen 2 i Reoliadau 2026 sydd, ym marn glinigol yr ymarferydd, fwyaf priodol ar gyfer trin y claf;

(b) ymyriadau ataliol sy’n briodol i broffil risg y claf;

(c) cyfnod sefydlogi, pan fo’n glinigol angenrheidiol;

(d) triniaeth ddiffiniol ar gyfer cyflyrau y cafwyd diagnosis ar eu cyfer;

(e) ysbaid adalw yn seiliedig ar risg glinigol; ac

(f) addysg cleifion a chymorth hunanofal.

## Capiau blynyddol ar becynnau gofal penodol

3.16. Ni chaiff y BILl ddarparu taliad cydnabyddiaeth ar gyfer y canlynol:

(a) darparu mwy na dau becyn gofal periodontol i glaf unigol mewn blwyddyn gontract, na

(b) darparu cyfanswm o Becynnau Gofal Coronau a Phontydd, Mewnosodiadau, Arosodiadau ac Argaenau sy'n fwy na 10% o'r GBC bob blwyddyn, oni bai bod cymeradwyaeth ysgrifenedig wedi ei chael gan y BILl ymlaen llaw.

3.17. Pan fo contractwr yn dymuno mynd y tu hwnt i'r cap o 10% ar gyfer Pecynnau Gofal Coronau a Phontydd, Mewnosodiadau, Arosodiadau ac Argaenau, rhaid i'r contractwr wneud cais ysgrifenedig i'r BILl yn nodi:

(a) y cyfiawnhad clinigol dros fynd y tu hwnt i'r cap;

(b) nifer a gwerth y pecynnau ychwanegol a gynigir;

(c) yr effaith ar gyflenwi gwasanaethau gorfodol eraill.

3.18. Rhaid i'r BILl ymateb i gais o'r fath o fewn 28 o ddiwrnodau, a chaiff ei gymeradwyo, ei wrthod, neu ei gymeradwyo yn ddarostyngedig i amodau.

## Gofynion ynglŷn â chynllun triniaeth

3.19. Ni chaiff BILl roi taliad cydnabyddiaeth i gontractwr sy'n darparu pecyn gofal sydd i'w gyflenwi dros fwy nag un apwyntiad oni bai, ar adeg yr archwiliad cyntaf o'r claf, fod y contractwr wedi darparu i'r claf gynllun triniaeth ar ffurflen a gyflenwir at y diben hwnnw gan y BILl neu sy'n cyfateb i unrhyw fanyleb a ddarparwyd gan y BILl ac sy'n pennu:

(a) enw'r claf,

(b) enw'r contractwr;

(c) manylion y mannau lle y bwriedir i'r claf gael y cwrs o driniaeth o dan y pecyn gofal sydd i'w ddarparu iddo gan y contractwr,

(d) y rhif ffôn y gellir ei ddefnyddio i gysylltu â'r contractwr yn ystod oriau arferol y ddeintyddfa,

(e) manylion y gwasanaethau yr ystyrir ar ddyddiad yr archwiliad hwnnw eu bod yn angenrheidiol i'r contractwr eu darparu gan roi sylw i'r rheswm dros y pecyn gofal a'i ddyraniad risg,

(f) unrhyw gynigion y gall fod gan y contractwr ar gyfer gwasanaethau preifat fel dewis amgen yn lle'r gwasanaethau a gynigir o dan y contract, gan gynnwys manylion am y gost i'r claf pe bai'n derbyn y ddarpariaeth o wasanaethau preifat, ac

(g) pan fo'r claf, ar ôl ystyried y cynllun triniaeth, yn penderfynu derbyn y ddarpariaeth o wasanaethau preifat yn lle'r holl wasanaethau o dan y contract neu ran ohonynt, rhaid i'r claf fod wedi llofnodi'r cynllun hwnnw yn y man priodol i ddangos ei fod wedi deall natur y gwasanaethau preifat sydd i'w darparu a'i fod yn derbyn y gwasanaethau preifat hynny.

3.20. Pan fo angen amrywio'r gwasanaethau sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun triniaeth am resymau clinigol, rhaid i'r contractwr ddarparu i'r claf y cynllun triniaeth diwygiedig.

3.21. Ni chaiff y BILl roi taliad cydnabyddiaeth i'r contractwr oni bai bod y ffurflen yn cadarnhau bod y contractwr wedi darparu'r gwasanaethau y manylir arnynt yn y cynllun triniaeth, neu pan fo cynllun triniaeth diwygiedig wedi ei ddarparu, yn unol â'r cynllun triniaeth diwygiedig hwnnw.

## Rheolau talu ar ôl dadrestru

3.22. Rhaid i'r BILl roi taliad cydnabyddiaeth i gontractwr:

(a) pan fo claf wedi ei ddadrestru, a bo'r contractwr yn hawlio unrhyw ffi pecyn gofal sydd heb ei thalu, ar yr amod:

(i) bod y contractwr yn gallu dangos bod y pecyn gofal wedi dechrau,

(ii) bod y contractwr yn gallu dangos ei fod wedi gwneud ymdrechion digonol i sicrhau bod y claf yn dod i'r apwyntiadau a'i fod wedi ysgrifennu at y claf i egluro bod y pecyn gofal wedi diweddu a bod rhaid i'r claf gofrestru i gael ei ailddyrannu drwy'r Porth Mynediad Deintyddol, a

(iii) bod tystiolaeth o'r ymdrechion a wnaed yn cael ei chadw am 24 mis gan y contractwr a'i bod yn cael ei rhoi ar gael pan ofynnir amdani at ddibenion archwilio;

(b) pan fo'r contractwr yn hawlio'r ffi pecyn gofal pan fo pecyn gofal wedi ei ddiweddu, cyn iddo gael ei gwblhau, gan y contractwr, y claf, neu berson sy'n gweithredu ar ran y claf yn yr amgylchiadau a bennir yn Atodlen 1 i Reoliadau 2026.

3.23. Rhaid lleihau'r swm a hawlir gan gontractwr mewn amgylchiadau pan fo ffi'r claf, yn ychwanegol at y swm a hawlir, yn golygu bod taliad sy'n fwy na gwerth y pecyn gofal yn ddyledus fel nad yw'r taliad a'r ffi gyda'i gilydd yn fwy na gwerth y pecyn gofal.

## Gofynion ynglŷn â chadw tystiolaeth

3.24. Mae'n amod talu bod rhaid i gontractwyr gadw'r dystiolaeth a ganlyn am gyfnod o 24 mis a'i rhoi ar gael i'r BILl pan ofynnir amdani at ddibenion archwilio:

(a) cynlluniau triniaeth ac unrhyw ddiwygiadau;

(b) ffurflenni cydsyniad cleifion i gael triniaeth breifat yn lle triniaeth o dan y contract;

(c) cofnodion clinigol yn dogfennu'r holl driniaeth a ddarparwyd;

(d) tystiolaeth o'r ymdrechion a wnaed i sicrhau presenoldeb claf pan fo contractwyr yn hawlio am apwyntiadau a gollwyd neu gleifion a ddadrestrwyd;

(e) gohebiaeth â chleifion ynghylch dadrestru;

(f) ceisiadau am gymeradwyaeth i fynd y tu hwnt i'r cap o 10% o'r GBC ar gyfer Pecynnau Gofal Coronau a Phontydd, Mewnosodiadau, Arosodiadau ac Argaenau.

3.25. Rhoddir taliad cydnabyddiaeth am becynnau gofal ar y gyfradd tariff gymwys ar gyfer pob pecyn a gyflenwyd.

3.26. Mesurir perfformiad yn erbyn y dyraniad o becynnau gofal yn ôl cyfanswm gwerth y pecynnau gofal a gyflenwyd fel canran o'r dyraniad o becynnau gofal.

3.27. Y gyfran o GBC a ddyrennir i becynnau gofal yw £0.70(**m**) x G.

## Taliad y pen ar gyfer gwasanaethau atal (5% o GBC)

3.28. Rhaid i'r BILl drefnu i bob contractwr gael taliad cydnabyddiaeth am ddarparu gwasanaethau atal drwy daliad y pen. Mae'r contract yn darparu:

(a) na all y taliad y pen fod yn ddarostyngedig i adenilliad ariannol ar sail lefelau gweithgarwch, ar yr amod bod y contractwr yn cyflenwi gwasanaethau atal yn unol ag Atodlen 1 i Reoliadau 2026;

**m** Oni bai ei fod yn cael ei amrywio.

(b) pan fo gwaith monitro neu archwilio yn datgelu nad yw’r contractwr yn cyflenwi gwasanaethau atal yn unol â Rhan 4 o Atodlen 1 i Reoliadau 2026, bod y BILl yn cael:
   (i) ei gwneud yn ofynnol i gamau adfer gael eu cymryd o fewn cyfnod penodedig;
   (ii) cadw yn ôl daliadau y pen yn y dyfodol nes bod cydymffurfedd wedi ei ddangos;
   (iii) adennill taliadau y pen a wnaed eisoes mewn cysylltiad â chyfnodau pan nad oedd gwasanaethau atal wedi eu darparu’n briodol; neu
   (iv) cymryd camau eraill yn unol â’r darpariaethau tor contract yn Atodlen 3 i Reoliadau 2026.

3.29. Mae’r taliad y pen yn rhoi taliad cydnabyddiaeth i’r contractwr am gyflenwi’r canlynol:

(a) cyngor ataliol ac ymyriadau ataliol a ddarperir fel rhan o asesiadau cleifion newydd;
(b) cyngor ataliol ac ymyriadau ataliol a ddarperir fel rhan o apwyntiadau adalw;
(c) cyngor ataliol ac ymyriadau ataliol a ddarperir fel rhan o becynnau gofal;
(d) apwyntiadau ataliol pwrpasol pan fo rheswm clinigol amdanynt;
(e) gosod farnais fflworid, pan fo rheswm clinigol amdano;
(f) darparu deunyddiau gwybodaeth i gleifion;
(g) yr amser a dreuliwyd gan holl aelodau’r tîm deintyddol wrth gyflenwi gwasanaethau atal; ac
(h) costau gweinyddol sy’n gysylltiedig â dogfennu a monitro’r gwaith o gyflenwi gwasanaeth atal.

3.30. Rhoddir taliad cydnabyddiaeth am ymyriadau ataliol penodol sy’n ffurfio rhan o becyn gofal (megis selyddion rhychau neu gwnsela deietegol estynedig) drwy’r taliad am y pecyn gofal ac nid drwy’r taliadau y pen am y gwasanaeth atal.

3.31. Y gyfran o GBC a ddyrennir i becynnau gofal yw £0.05 x GBC.

## Taliad y pen ar gyfer apwyntiadau adalw (3% o GBC)

3.32. Rhaid i’r BILl drefnu i bob contractwr gael taliad cydnabyddiaeth am ddarparu apwyntiadau adalw i gleifion y dyrannwyd cyfnod adalw o 18 mis neu ragor iddynt yn eu hapwyntiad blaenorol o dan y contract. Mae’r contract yn darparu:

(a) bod y taliad y pen yn cael ei wneud mewn rhandaliadau misol cyfartal drwy gydol y flwyddyn gontract;
(b) na all y taliad y pen fod yn ddarostyngedig i adenilliad ariannol ar sail lefelau gweithgarwch, ar yr amod bod y contractwr yn cyflenwi gwasanaethau atal yn unol â Rhan 4 o Atodlen 1 i Reoliadau 2026;
(c) pan fo gwaith monitro neu archwilio yn datgelu nad yw’r contractwr yn cyflenwi gwasanaethau atal, bod y BILl yn cael:
   (i) ei gwneud yn ofynnol i gamau adfer gael eu cymryd o fewn cyfnod penodedig;
   (ii) cadw yn ôl daliadau y pen yn y dyfodol nes bod cydymffurfedd wedi ei ddangos;
   (iii) adennill taliadau y pen a wnaed eisoes mewn cysylltiad â chyfnodau pan nad oedd gwasanaethau atal wedi eu darparu’n briodol; neu
   (iv) cymryd camau eraill yn unol â’r darpariaethau tor contract yn Atodlen 3 i Reoliadau 2026.

3.33. Y gyfran o GBC a ddyrennir i apwyntiadau adalw a ddarperir i gleifion y dyrannwyd cyfnod adalw o 18 mis neu ragor iddynt yn eu hapwyntiad blaenorol o dan y contract yw £0.03 x GBC.

## Y Cynllun Blaenoriaethau Cenedlaethol

3.34. Rhaid i'r BILl drefnu i bob contractwr gael taliad cydnabyddiaeth am gymryd rhan yn y Cynllun Blaenoriaethau Cenedlaethol.

3.35. Mae'r Cynllun Blaenoriaethau Cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr wneud trefniadau i gyflenwi eitemau dethol o'r rhestr isod —

(a) gwella ansawdd,

(b) rheoli ansawdd,

(c) mynd i'r afael ag anghydraddoldeb,

(d) gwella mynediad at wasanaethau ar gyfer carfannau o gleifion a dargedir,

(e) datblygu modelau newydd ar gyfer cyflenwi gwasanaethau gan gynnwys gofal integredig i reoli clefydau cronig,

(f) datblygu'r defnydd o amrywiaeth o broffesiynolion deintyddol i gyflenwi gofal deintyddol yn fwy effeithiol ac effeithlon,

(g) cyflenwi gwasanaethau'n ddigidol,

(h) gwella gwaith atal a rheoli haint, ac

(i) cynaliadwyedd (deintyddiaeth wyrddach).

3.36. Ar gyfer blwyddyn 2026-2027 mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo bod rhaid i BILlau arfer eu swyddogaethau o dan reoliad 17 o Reoliadau 2026 i wyro oddi wrth y cyfrannau gorfodol fel bod y 5% a ddyrennir ar gyfer blaenoriaethau cenedlaethol yn cael ei gymhwyso i'r gyfran pecynnau gofal er mwyn cefnogi'r broses o bontio i'r trefniadau newydd.

3.37. Rhaid i BILl roi taliad cydnabyddiaeth i'r contractwr am gymryd rhan yn y cynllun pan ddarperir tystiolaeth gan y contractwr ei fod wedi cymryd camau boddhaol i gyflenwi elfen berthnasol y cynllun yn y flwyddyn ariannol berthnasol. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae gan gontractwr hawl i daliad cydnabyddiaeth o dan y ddarpariaeth hon mewn cysylltiad â chamau a gymerir i gyflawni elfen berthnasol y cynllun ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ariannol berthnasol, gan gynnwys unrhyw gyfnod cyn y dyddiad y daw'r ddarpariaeth hon i rym.

3.38. Y gyfran o GBC a ddyrennir i'r Cynllun Blaenoriaethau Cenedlaethol yw £0.05(**n**) x GBC.

## Gofal brys i gleifion gweithredol

3.39. Rhaid i gontractwyr ddarparu gofal brys i'w cleifion gweithredol. Ni roddir taliad cydnabyddiaeth ar wahân am y gwasanaeth hwn oherwydd disgwylir y bydd taliad cydnabyddiaeth am apwyntiad gofal brys i glaf gweithredol yn cael ei roi drwy daliad am becyn gofal.

**n** Oni bai ei fod yn cael ei amrywio.

RHAN 4

TALIADAU AT DDIBENION PENODOL

## Taliadau Oedran

4.1. Taliadau misol i gontractwr mewn cysylltiad â Deintydd-Gyflawnwyr unigol sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystra yw taliadau oedran.

## Meini prawf cymhwystra

4.2. Mae gan gontractwr hawlogaeth i gael taliad oedran mewn cysylltiad â Deintydd-Gyflawnydd a gyflogir neu a gymerir ymlaen ganddo os yw'r Deintydd-Gyflawnydd—

(a) wedi cyrraedd 55 oed cyn 30 Mawrth 2026, a bod ganddo hawlogaeth i daliad oedran, a'i fod yn ei gael, yn unol â DHA 2009 (fel y'i diwygiwyd) mewn cysylltiad â chwarter olaf y flwyddyn ariannol 2025 i 2026, neu

(b) yn cyrraedd 55 oed ar neu ar ôl 1 Ebrill 2026 (er bod ei hawlogaeth yn cael ei drin fel pe bai'n dechrau yn y mis ar ôl y mis pryd y mae ei ben-blwydd yn syrthio), a'i fod am y tri mis cyn iddo gyrraedd 55 oed wedi bod yn darparu gwasanaethau deintyddol o dan Reoliadau 2026 neu Reoliadau 2006, yn ôl y digwydd.

4.3. Yn ogystal, mae gan gontractwr hawlogaeth i gael taliad oedran mewn cysylltiad â Deintydd-Gyflawnydd a gyflogir neu a gymerir ymlaen ganddo dim ond os—

(a) yw'r person y gwneir y taliad mewn cysylltiad ag ef yn parhau i fod wedi ei gynnwys mewn Rhestr Cyflawnwyr Deintyddol;

(b) nad yw'r person y gwneir y taliad mewn cysylltiad ag ef yn cael taliad pensiwn o dan gynllun pensiwn y GIG mewn unrhyw fis pryd y mae'r contractwr yn hawlio Taliad Oedran Misol mewn cysylltiad ag ef; ac

(c) yw swm y taliad, ynghyd â swm unrhyw Daliad Oedran Misol arall y mae unrhyw gontractwr arall neu unrhyw Ddeiliad Cytundeb GDP yn ei gael mewn cysylltiad â'r Deintydd-Gyflawnydd hwnnw ar gyfer yr un mis yn llai na £662.

## Ceisiadau am daliad oedran

4.4. Pan fo Deintydd-Gyflawnydd yn bodloni'r meini prawf cymhwystra a bennir ym mharagraff 5.2(a) neu (b), er mwyn cael ei Daliad Oedran Misol cyntaf mewn cysylltiad â'r Deintydd-Gyflawnydd hwnnw, rhaid i'r contractwr hysbysu'r BILl yn ysgrifenedig—

(a) bod y Deintydd-Gyflawnydd yn cael ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen gan y contractwr; a

(b) am unrhyw Daliadau Oedran Misol eraill y mae unrhyw gontractwr arall neu unrhyw Ddeiliad Cytundeb GDP yn ei hawlio mewn cysylltiad â'r Deintydd-Gyflawnydd hwnnw ar gyfer unrhyw fis y mae hawliad y contractwr yn ymwneud ag ef.

## Y cyfrifiad canrannol ac uchafswm y Taliadau Oedran Misol

4.5. Y swm y mae gan y contractwr hawlogaeth iddo fel Taliad Oedran Misol mewn cysylltiad â Deintydd-Gyflawnydd a gyflogir neu a gymerir ymlaen ganddo ac y mae'r meini prawf cymhwystra wedi eu bodloni mewn cysylltiad ag ef yw 21.72% o Enillion Pensiynadwy misol net y Deintydd-Gyflawnydd o dan gontract GDC y contractwr yn y mis y mae'r taliad yn ymwneud ag ef, ond yr uchafswm sy'n daladwy mewn cysylltiad â phob Deintydd-Gyflawnydd mewn unrhyw fis yw £662.

4.6. Pan all Taliad Oedran Misol fod yn daladwy mewn cysylltiad â Deintydd-Gyflawnydd penodol i fwy nag un contractwr neu Ddeiliad Cytundeb GDP, ond byddai'r cyfansymiau sy'n daladwy o dan bob contract neu gytundeb, o'u cymryd gyda'i gilydd, (pe na bai uchafsymiau) yn

fwy na £662, yr uchafswm sy'n daladwy o dan yr holl gontractau neu gytundebau y gall Taliadau Oedran Misol fod yn daladwy mewn cysylltiad â hwy yw £662. Felly rhaid dosbarthu'r £662 yn gymesur rhwng pob contract GDC neu gytundeb GDP.

4.7. Felly, os yw'r Deintydd-Gyflawnydd yn ennill 60% o'i Enillion Pensiynadwy misol net o gontract GDC, 30% o un cytundeb GDP a 10% o gytundeb GDP arall, ei Daliad Oedran Misol o dan y contract GDC fyddai £397, ac o dan y ddau gytundeb GDP byddent yn £199 a £66 yn y drefn honno.

4.8. Yn ymarferol, bydd y dosrannu'n cael ei wneud gan AGB y GIG, gan mai ganddo ef y bydd y data angenrheidiol ynghylch pob un o'r contractau neu gytundebau perthnasol.

## Amcangyfrifon o Enillion Pensiynadwy misol net

4.9. At ddibenion yr adran hon, mae Enillion Pensiynadwy misol net Deintydd-Gyflawnydd mewn cysylltiad ag unrhyw fis yn un rhan o ddeuddeg o'i Enillion Pensiynadwy ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r mis yn dod o'i mewn, ar ôl hepgor o'r enillion hynny unrhyw Enillion Pensiynadwy ar gyfer y flwyddyn ariannol honno sy'n briodoladwy i Daliad Oedran Misol.

4.10.Mae hyn yn golygu y bydd yn amhosibl gwybod, tan rywbryd ar ôl diwedd blwyddyn ariannol, beth y dylai gwerth gwirioneddol y Taliadau Oedran Misol yn ystod y flwyddyn ariannol honno fod. Yn unol â hynny, rhaid i BILlau dalu, bob mis, amcangyfrif o'r hyn y dylai gwerth gwirioneddol y Taliadau Oedran Misol fod, a rhaid i'r amcangyfrif hwnnw fod yn amcangyfrif o'r Enillion Pensiynadwy misol net (h.y. ar ôl didynnu unrhyw Enillion Pensiynadwy sy'n briodoladwy i unrhyw Daliadau Oedran Misol) sy'n ymddangos mewn cysylltiad â'r Deintydd-Gyflawnydd ar Restr Taliadau Misol y contractwr.

4.11. Daw swm yr amcangyfrif misol hwn yn daladwy ar ddiwrnod gwaith cyntaf y mis ar ôl y mis y mae'r Taliad Oedran Misol yn ymwneud ag ef. Daw unrhyw swm dros ben sy'n dod yn ddyledus ar ôl canfod gwerth gwirioneddol y Taliadau Oedran Misol yn daladwy pan fydd y gwerth gwirioneddol hwnnw wedi ei ganfod gan y BILl. Rhaid i'r BILl ganfod y gwerth gwirioneddol o fewn 3 mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol y mae'r taliad oedran hwnnw'n ymwneud â hi.

## Amodau sy'n gysylltiedig â Thaliadau Oedran Misol

4.12. Nid yw Taliadau Oedran Misol, nac unrhyw ran o'r taliadau hynny, ond yn daladwy os yw'r amodau a ganlyn wedi eu bodloni—

(a) rhaid i'r contractwr roi ar gael i'r BILl unrhyw wybodaeth nad oes gan y BILl mohoni ond y mae ei hangen arno, a honno'n wybodaeth sydd naill ai gan y contractwr neu y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddo ei chael, er mwyn cyfrifo'r taliad;

(b) rhaid i'r contractwr hysbysu'r BILl am unrhyw newid yn swm yr Enillion Pensiynadwy misol net (h.y. ar ôl didynnu unrhyw Enillion Pensiynadwy sy'n briodoladwy i unrhyw Daliadau Oedran Misol) y Deintydd-Gyflawnwyr a gyflogir neu a gymerir ymlaen ganddo; ac

(c) rhaid i'r holl wybodaeth a ddarperir yn unol â'r paragraff hwn neu yn gyson ag ef fod yn gywir.

4.13. Os bydd y contractwr yn torri unrhyw un neu ragor o amodau ei daliadau o dan yr adran hon a nodir yn y DHA hwn (gan gynnwys yr amodau a nodir ym mharagraff 5.13), caiff y BILl, mewn amgylchiadau priodol, gadw yn ôl unrhyw daliad neu unrhyw ran o daliad o dan yr adran hon sydd fel arall yn daladwy.

## Taliadau mewn cysylltiad â hyfforddiant sylfaen

Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer taliadau i gontractwyr mewn perthynas â hyfforddiant sylfaen ar gyfer ymarferwyr deintyddol. Bwriedir i daliadau o dan yr adran hon

gefnogi'r gwaith o hyfforddi ymarferwyr deintyddol sy'n ymgymryd â hyfforddiant sylfaen fel amod o'u cynnwys mewn rhestr cyflawnwyr deintyddol. Eu bwriad yw darparu taliad i'r Deintydd-Gyflawnydd sy'n darparu'r hyfforddiant sylfaen i'r Hyfforddai Sylfaen ac i ddarparu taliad i'r contractwr i dalu costau gwasanaeth

## Cymhwystra i gael taliadau mewn cysylltiad â hyfforddiant sylfaen

4.14. Mae gan gontractwr hawlogaeth i gael taliadau o dan yr adran hon mewn cysylltiad â Deintydd Sylfaen os—

(a) yw'r Deintydd Sylfaen yn ymgymryd â hyfforddiant sylfaen fel rhan o Gynllun Hyfforddiant Sylfaen Cymeradwy;

(b) yw'r contractwr yn lletya Hyfforddwr Deintyddion Sylfaen sydd wedi ei gymeradwyo gan y Deon Deintyddol Ôl-raddedig i hyfforddi'r Deintydd Sylfaen;

(c) yw'r contractwr wedi ymrwymo i gytundeb hyfforddi gyda'r Deon Deintyddol Ôl-raddedig mewn cysylltiad â'r Deintydd Sylfaen; a

(d) yw mangre a chyfleusterau'r contractwr wedi eu cymeradwyo gan y Deon Deintyddol Ôl-raddedig fel rhai sy'n addas ar gyfer hyfforddiant sylfaen.

4.15. Mae gan gontractwr sy'n bodloni'r amodau ym mharagraff 4.15 hawlogaeth i gael y taliadau a ganlyn—

(a) Grant Hyfforddwr;

(b) Taliad Cost Gwasanaeth.

## Grant Hyfforddwr

4.16. Mae'r Grant Hyfforddwr yn daliad misol i'r contractwr i gydnabod yr amser a'r arbenigedd a ddarperir gan yr Hyfforddwr Deintyddion Sylfaen wrth hyfforddi'r Deintydd Sylfaen.

4.17.Swm y Grant Hyfforddwr ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27 yw £[X] y mis ar gyfer pob Deintydd Sylfaen sy'n cael ei hyfforddi gan y contractwr.

4.18.Mae'r Grant Hyfforddwr yn daladwy o'r mis y mae'r Deintydd Sylfaen yn dechrau hyfforddi gyda'r contractwr tan y mis y mae'r Deintydd Sylfaen yn cwblhau'r hyfforddiant neu'n rhoi'r gorau iddo, ac mae'n daladwy ar sail pro rata ar gyfer unrhyw ran o fis.

## Taliad Cost Gwasanaeth

4.19. Mae'r Taliad Cost Gwasanaeth yn daliad misol i'r contractwr i gyfrannu tuag at y costau ychwanegol y mae'r contractwr yn mynd iddynt wrth ddarparu hyfforddiant sylfaen, gan gynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt—

(a) amser ychwanegol yn y ddeintyddfa;

(b) deunyddiau ac offer a ddefnyddir gan y Deintydd Sylfaen;

(c) costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â hyfforddiant sylfaen.

4.20. Swm y Taliad Cost Gwasanaeth ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27 yw £[X] y mis ar gyfer pob Deintydd Sylfaen sy'n cael ei hyfforddi gan y contractwr.

## Darpariaethau ynglŷn â rhan o flwyddyn a therfynu'n gynnar

4.21. Pan fo Deintydd Sylfaen yn cychwyn hyfforddiant, neu'n rhoi'r gorau iddo, ran o'r ffordd drwy fis, mae'r taliadau o dan yr Adran hon i'w cyfrifo ar sail pro rata drwy gyfeirio at nifer y diwrnodau yn ystod y mis pryd yr oedd y Deintydd Sylfaen yn cael hyfforddiant.

4.22. Pan fo Deintydd Sylfaen yn rhoi'r gorau i hyfforddiant cyn diwedd y Cynllun Hyfforddiant Sylfaen Cymeradwy, rhaid i'r contractwr hysbysu'r BILl yn ysgrifenedig o fewn 7 niwrnod iddo roi'r gorau iddo, a bydd taliadau o dan yr Adran hon yn dod i ben o'r dyddiad y mae'n rhoi'r gorau iddo.

## Amodau sy'n gysylltiedig â thaliadau o dan yr adran hon

4.23. Nid yw taliadau o dan yr adran hon, nac unrhyw ran o daliadau o'r fath, ond yn daladwy os yw'r contractwr yn bodloni'r amodau a ganlyn—

(a) rhaid i'r contractwr roi ar gael i'r BILl unrhyw wybodaeth nad oes gan y BILl mohoni ond y mae ei hangen arno, a honno'n wybodaeth sydd naill ai gan y contractwr neu y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddo ei chael, er mwyn cyfrifo'r taliadau;

(b) rhaid i'r contractwr hysbysu'r BILl yn brydlon am unrhyw newidiadau i amgylchiadau'r Deintydd Sylfaen neu'r Hyfforddwr Deintyddion Sylfaen a allai effeithio ar hawlogaeth i daliadau o dan yr adran hon;

(c) rhaid i'r contractwr gydymffurfio â gofynion y Cynllun Hyfforddiant Sylfaen Cymeradwy ac unrhyw gyfarwyddydau a roddir gan y Deon Deintyddol Ôl-raddedig;

(d) rhaid i'r holl wybodaeth a ddarperir yn unol â'r paragraff hwn fod yn gywir.

4.24. Os bydd y contractwr yn torri unrhyw un neu ragor o amodau ei daliadau o dan yr adran hon a nodir yn y DHA hwn (gan gynnwys yr amodau a nodir ym mharagraff 6.22), caiff y BILl, mewn amgylchiadau priodol, gadw yn ôl daliad cyfan neu unrhyw ran o daliad o dan yr adran hon sydd fel arall yn daladwy.

## Taliadau mewn cysylltiad ag absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth ac absenoldeb mabwysiadu

4.25. Bydd gan gyflogeion contractwyr hawliau i gael amser i ffwrdd ar gyfer gofal cynenedigol, absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth, absenoldeb mabwysiadu, absenoldeb rhiant, amser i ffwrdd i ddibynyddion a'r hawl i ofyn am weithio hyblyg os ydynt yn bodloni'r amodau hawlogaeth perthnasol o dan ddeddfwriaeth cyflogaeth ar gyfer y mathau hynny o absenoldeb. Mae hawl partneriaid mewn partneriaethau i'r mathau hyn o absenoldeb yn fater ar gyfer eu cytundeb partneriaeth.

4.26. Os yw cyflogai, partner mewn partneriaeth neu gontractwr yn Ddeintydd-Gyflawnydd, bydd gan y contractwr sy'n cyflogi neu'n cymryd ymlaen y Deintydd-Gyflawnydd hwnnw hawlogaeth o dan yr adran hon i daliadau gan y BILl mewn cysylltiad â chyfnod o absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth neu absenoldeb mabwysiadu a gymerir gan y Deintydd-Gyflawnydd hwnnw, ar yr amod bod y meini prawf cymhwystra wedi eu bodloni ac nad yw'r amodau talu perthnasol wedi eu torri. Fodd bynnag, ni fydd dim yn yr amodau ar gyfer taliadau i gontractwyr o dan yr adran hon yn cael ei ddehongli fel pe bai'n gwanhau hawliau statudol Deintydd-Gyflawnydd. Beth bynnag, hyd yn oed os na chaiff y BILl ei gyfarwyddo yn y DHA hwn i wneud taliadau i gontractwr mewn cysylltiad ag absenoldeb rhiant, caiff wneud hynny fel mater o ddisgresiwn. Mae'r pwerau i wneud hynny wedi eu nodi yn adran 68 o Ddeddf 2006.

## Cymhwystra i gael taliadau absenoldeb mamolaeth

4.27. Mae gan gontractwr hawlogaeth i gael taliad absenoldeb mamolaeth mewn cysylltiad â Deintydd-Gyflawnydd a gyflogir neu a gymerir ymlaen ganddo os—

(a) yw enw'r Deintydd-Gyflawnydd wedi ei gynnwys mewn Rhestr Ddeintyddol am gyfnod o ddwy flynedd o leiaf (yn ddarostyngedig i baragraff 4.25), a rhaid bod y 26 wythnos diwethaf o'r cyfnod hwnnw wedi bod yn barhaus a rhaid ei fod wedi bod yn gyfnod o gyflogaeth barhaus neu'n gyfnod o gael ei gymryd ymlaen yn barhaus a oedd yn ei gwneud

yn ofynnol cyflawni gwasanaethau deintyddol fel rhan o’r GIG a rhaid ei fod wedi dod yn union cyn y 15fed wythnos cyn wythnos ddisgwyliedig y gwelyfod,

(b) yw’r Deintydd-Gyflawnydd wedi dod yn feichiog ac wedi cyrraedd, neu wedi ei welyfodi cyn cyrraedd, cychwyn yr 11eg wythnos cyn wythnos ddisgwyliedig y gwelyfod,

(c) yw’r Deintydd-Gyflawnydd wedi peidio â chyflawni gwasanaethau deintyddol o dan gontract GDC y contractwr er mwyn cymryd absenoldeb mamolaeth (sydd at y dibenion hyn yn cynnwys absenoldeb ar gyfer gofal cynenedigol), ac eithrio unrhyw ddiwrnodau cadw mewn cysylltiad dewisol y cytunwyd rhwng y contractwr a’r Deintydd-Gyflawnydd y bydd y Deintydd-Gyflawnydd yn gweithio,

(d) yw’r taliad yn ymwneud â Chyfnod Tâl Absenoldeb Rhiant ac nid cyfnod o absenoldeb oherwydd salwch.

## Cymhwystra i gael taliadau absenoldeb tadolaeth – genedigaeth

4.28. Mae gan gontractwr hawlogaeth i gael taliad absenoldeb tadolaeth mewn cysylltiad â Deintydd-Gyflawnydd a gyflogir neu a gymerir ymlaen ganddo os—

(a) yw enw’r Deintydd-Gyflawnydd wedi ei gynnwys mewn Rhestr Ddeintyddol am gyfnod o ddwy flynedd o leiaf a bo’r 26 wythnos diwethaf o’r cyfnod hwnnw yn gyfnod o gyflogaeth barhaus neu’n gyfnod o gael ei gymryd ymlaen yn barhaus a oedd yn ei gwneud yn ofynnol cyflawni gwasanaethau deintyddol fel rhan o’r GIG gan ddiweddu â’r wythnos yn union cyn dyddiad geni’r plentyn, a

(b) yw’r Deintydd-Gyflawnydd naill ai—

  (v) yn dad i’r plentyn, neu’n briod neu’n bartner i fam y plentyn, ond nid yn dad i’r plentyn,

  (vi) yn ysgwyddo, neu’n disgwyl ysgwyddo—

    (aa) os mai ef yw tad y plentyn, gyfrifoldeb dros fagwraeth y plentyn, neu

    (bb) os mai ef yw gŵr neu bartner y fam ond nid tad y plentyn, y prif gyfrifoldeb, (ac eithrio unrhyw gyfrifoldeb ar y fam) dros fagwraeth y plentyn,

(c) yw’r Deintydd-Gyflawnydd wedi peidio â chyflawni gwasanaethau deintyddol o dan gontract GDC y contractwr er mwyn cymryd absenoldeb tadolaeth, a

(d) yw’r taliad yn ymwneud â Chyfnod Tâl Absenoldeb Rhiant ac nid cyfnod o absenoldeb oherwydd salwch.

## Cymhwystra i gael taliadau absenoldeb tadolaeth – mabwysiadu

4.29. Mae gan gontractwr hawlogaeth i gael taliad absenoldeb tadolaeth mewn cysylltiad â Deintydd-Gyflawnydd a gyflogir neu a gymerir ymlaen ganddo os—

(a) yw enw’r Deintydd-Gyflawnydd wedi ei gynnwys mewn Rhestr Ddeintyddol am gyfnod o ddwy flynedd o leiaf (yn ddarostyngedig i baragraff 8.7) a rhaid bod y 26 wythnos diwethaf o’r cyfnod hwnnw wedi bod yn gyfnod o gyflogaeth barhaus neu’n gyfnod o gael ei gymryd ymlaen yn barhaus a oedd yn ei gwneud yn ofynnol cyflawni gwasanaethau deintyddol fel rhan o’r GIG gan ddiweddu â’r wythnos y mabwysiadir y plentyn ynddi,

(b) yw’r Deintydd-Gyflawnydd naill ai—

  (i) yn briod neu’n bartner i fabwysiadydd y plentyn, a

  (ii) yn ysgwyddo, neu’n disgwyl ysgwyddo, y prif gyfrifoldeb (ac eithrio cyfrifoldeb y mabwysiadydd) dros fagwraeth y plentyn,

(c) yw’r Deintydd-Gyflawnydd wedi peidio â chyflawni gwasanaethau deintyddol o dan gontract GDC y contractwr er mwyn cymryd absenoldeb tadolaeth, a

(d) yw'r taliad yn ymwneud â Chyfnod Tâl Absenoldeb Rhiant ac nid cyfnod o absenoldeb oherwydd salwch.

## Cymhwystra i gael taliadau absenoldeb mabwysiadu

4.30. Mae gan gontractwr hawlogaeth i gael taliad absenoldeb mabwysiadu mewn cysylltiad â Deintydd-Gyflawnydd a gyflogir neu a gymerir ymlaen ganddo os—

(a) yw enw'r Deintydd-Gyflawnydd wedi ei gynnwys mewn Rhestr Ddeintyddol am gyfnod o ddwy flynedd o leiaf (yn ddarostyngedig i baragraff 8.7), a rhaid bod y 26 wythnos diwethaf o'r cyfnod hwnnw wedi bod yn gyfnod o gyflogaeth barhaus neu'n gyfnod o gael ei gymryd ymlaen yn barhaus a oedd yn ei gwneud yn ofynnol cyflawni gwasanaethau deintyddol fel rhan o'r GIG a rhaid ei fod wedi dod yn union cyn y dyddiad mabwysiadu,

(b) yw'r Deintydd-Gyflawnydd wedi dod yn rhiant mabwysiadol i blentyn ac mai ef yw'r prif ddarparwr gofal ar gyfer y plentyn hwnnw,

(c) yw'r Deintydd-Gyflawnydd wedi peidio â chyflawni gwasanaethau deintyddol o dan gontract GDC y contractwr er mwyn cymryd absenoldeb mabwysiadu, ac eithrio unrhyw ddiwrnodau cadw mewn cysylltiad dewisol y cytunwyd rhwng y contractwr a'r Deintydd-Gyflawnydd y bydd y Deintydd-Gyflawnydd yn gweithio, a

(d) yw'r taliad yn ymwneud â Chyfnod Tâl Absenoldeb Rhiant ac nid cyfnod o absenoldeb oherwydd salwch.

## Absenoldeb rhiant ar gyfer y rheini sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant sylfaen cymeradwy

4.31. Yn achos Deintydd-Gyflawnydd sydd wedi derbyn blwyddyn o hyfforddiant sylfaen cymeradwy, bydd y ddwy flynedd a grybwyllir ym mharagraffau 4.27(a), 4.28(a), 4.29(a) a 4.30(a) yn cael eu lleihau i flwyddyn.

## Ystyr "Cyfnod Tâl Absenoldeb Rhiant"

4.32. Yn yr adran hon, ystyr "Cyfnod Tâl Absenoldeb Rhiant" yw—

(a) yn achos tâl absenoldeb mamolaeth, cyfnod o ddim mwy na 26 wythnos sy'n cychwyn—

(i) yn ddim cynharach na'r 11eg wythnos cyn yr wythnos y disgwylir gwelyfod, nac yn ddim hwyrach na'r wythnos y disgwylir gwelyfod, neu

(ii) os yw gwelyfod yn digwydd cyn yr 11eg wythnos cyn yr wythnos y disgwylir gwelyfod, ar y dydd Llun yn union cyn dyddiad gwirioneddol y gwelyfod;

y gwneir hawliad am daliadau mewn cysylltiad ag ef gan berson sy'n cymryd absenoldeb mamolaeth, neu mewn cysylltiad â'r person hwnnw, (sydd at y dibenion hyn yn cynnwys absenoldeb ar gyfer gofal cynenedigol) o dan yr adran hon;

(b) yn achos tâl tadolaeth, cyfnod o ddim mwy na 2 wythnos sy'n cychwyn o fewn 26 wythnos i ddyddiad yr enedigaeth berthnasol neu'r mabwysiadu perthnasol ac y gwneir hawliad am daliadau mewn cysylltiad ag ef gan berson sy'n cymryd absenoldeb tadolaeth neu mewn cysylltiad â'r person hwnnw o dan yr adran hon;

(c) yn achos tâl absenoldeb mabwysiadu, cyfnod o ddim mwy na 26 wythnos sy'n dilyn ar unwaith y dyddiad mabwysiadu ac y gwneir hawliad am daliadau mewn cysylltiad ag ef gan berson sy'n cymryd absenoldeb mabwysiadu neu mewn cysylltiad â'r person hwnnw o dan yr adran hon.

## Ceisiadau i gael taliadau absenoldeb rhiant

4.33. Pan fo Deintydd-Gyflawnydd yn bodloni'r meini prawf cymhwystra a bennir ym mharagraff 4.27, 4.28, 4.29 neu 4.30, er mwyn cael taliadau absenoldeb rhiant mewn cysylltiad â'r Deintydd-Gyflawnydd hwnnw, rhaid i'r contractwr wneud cais i'r BILl ar ffurflen safonol (sydd wedi ei gosod yn genedlaethol ac sydd ar gael yn electronig), a rhaid i'r cais hwnnw gynnwys—

(a) dyddiadau bwriadedig Cyfnod Tâl Absenoldeb Rhiant y Deintydd-Gyflawnydd (h.y. y Cyfnod Tâl Absenoldeb Rhiant y gwneir y cais mewn cysylltiad ag ef), a

(b) manylion Enillion Pensiynadwy misol net amcangyfrifedig y Deintydd-Gyflawnydd (a ddylai fod y swm sy'n ymddangos mewn cysylltiad â'r Deintydd-Gyflawnydd hwnnw yn Rhestr Taliadau Misol y contractwr).

4.34. Os yw'r cais yn ymwneud â thaliadau absenoldeb mamolaeth, rhaid i'r cais hefyd gynnwys—

(a) tystysgrif mamolaeth neu ddatganiad arall wedi ei chwblhau neu ei gwblhau gan ymarferydd meddygol cofrestredig neu fydwraig gofrestredig, yn rhoi'r wythnos y disgwylir gwelyfod y Deintydd-Gyflawnydd neu, yn ôl y digwydd, ddyddiad y gwelyfod, a

(b) declarasiwn ysgrifenedig gan y contractwr na wnaed, hyd eithaf ei wybodaeth, o ran y cyfnod y mae'r hawliad yn ymwneud ag ef, ddim hawliad am daliadau absenoldeb oherwydd salwch o dan adran 9 ganddo ef nac unrhyw gontractwr arall, na chan Ddeiliad Cytundeb GDP o dan y DHA ar gyfer GDP.

4.35.Os yw'r cais yn ymwneud â thaliadau absenoldeb tadolaeth, rhaid i'r cais hefyd gynnwys—

(a) mewn cysylltiad â genedigaeth plentyn, gadarnhad ysgrifenedig gan y contractwr—

  (i) o'r dyddiad geni disgwyliedig neu wirioneddol, a

  (ii) mai'r Deintydd-Gyflawnydd yw gŵr neu bartner y fam, y bydd yn rhannu cyfrifoldeb dros fagwraeth y plentyn a'i fod yn cymryd amser o'r gwaith i gynorthwyo'r fam neu i ofalu am y plentyn,

(b) mewn cysylltiad â mabwysiadu plentyn, ddogfennau sy'n dangos y dyddiad y disgwylir i'r plentyn gael ei leoli i'w fabwysiadu neu ddyddiad gwirioneddol y lleoli, y dyddiad yr hysbyswyd y mabwysiadydd ei fod wedi ei baru â'r plentyn a chadarnhad ysgrifenedig gan y contractwr fod y Deintydd-Gyflawnydd—

  (i) yn bartner i'r prif ddarparwr gofal,

  (ii) yn mynd i rannu cyfrifoldeb dros fagwraeth y plentyn, a

  (iii) yn cymryd amser o'r gwaith i gynorthwyo ei bartner neu i ofalu am y plentyn, ac

(c) declarasiwn ysgrifenedig gan y contractwr na wnaed, hyd eithaf ei wybodaeth, o ran y cyfnod y mae'r hawliad yn ymwneud ag ef, ddim hawliad am daliadau absenoldeb oherwydd salwch o dan adran 9 ganddo ef nac unrhyw gontractwr arall, na chan Ddeiliad Cytundeb GDP o dan y DHA ar gyfer GDP.

4.36. Os yw'r cais yn ymwneud â thaliadau absenoldeb mabwysiadu, rhaid i'r cais hefyd gynnwys—

(a) yn achos mabwysiadu o fewn y Deyrnas Unedig—

  (i) y dyddiad y disgwylir i'r plentyn gael ei leoli i'w fabwysiadu, neu

  (ii) dyddiad gwirioneddol y lleoli,

  (iii) y dyddiad yr hysbyswyd y mabwysiadydd ei fod wedi ei baru â'r plentyn wedi ei arnodi gan yr asiantaeth fabwysiadu briodol gyda'i henw a'i chyfeiriad, neu

  (iv) tystysgrif paru yn rhoi manylion cyfatebol;

(b) yn achos mabwysiadu trawswladol—

(i) y dyddiad y cafodd y mabwysiadydd hysbysiad swyddogol;

(ii) y dyddiad y disgwylir y bydd y plentyn yn dod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu'r dyddiad y daeth y plentyn i mewn felly, a

(iii) copi o'r hysbysiad swyddogol a thystiolaeth o ddyddiad cyrraedd y plentyn;

(c) cadarnhad ysgrifenedig gan y contractwr mai'r Deintydd-Gyflawnydd yw'r prif ddarparwr gofal ar gyfer y plentyn neu mai ef fydd y prif ddarparwr gofal ar ei gyfer, a

(d) declarasiwn ysgrifenedig gan y contractwr na wnaed, hyd eithaf ei wybodaeth, o ran y cyfnod y mae'r hawliad yn ymwneud ag ef, ddim hawliad am daliadau absenoldeb oherwydd salwch o dan adran 9 ganddo ef nac unrhyw gontractwr arall, na chan Ddeiliad Cytundeb GDP o dan y DHA ar gyfer GDP.

## Cyfrifo swm y taliadau absenoldeb rhiant a'r dyddiad dyledus

4.37. Mae'r swm y mae gan y contractwr hawlogaeth iddo mewn cysylltiad â thaliadau absenoldeb salwch yn swm wythnosol, a gyfrifir ar sail Enillion Pensiynadwy misol amcangyfrifedig y Deintydd-Gyflawnydd (a ddylai fel arfer fod y swm sy'n ymddangos mewn cysylltiad â'r Deintydd-Gyflawnydd hwnnw ar Restr Taliadau Misol y contractwr, ynghyd ag Enillion Pensiynadwy misol amcangyfrifedig y Deintydd-Gyflawnydd mewn cysylltiad ag unrhyw Daliad Oedran Misol y mae gan y Deintydd-Gyflawnydd hawlogaeth iddo yn union cyn i'r absenoldeb rhiant gael ei gymryd;

4.38. Mae'r swm misol hwn i'w luosi â 12 ac yna'i rannu â 52 i gynhyrchu swm wythnosol y taliadau absenoldeb rhiant.

4.39. Y swm wythnosol hwnnw yw'r swm y mae gan y contractwr hawlogaeth iddo mewn cysylltiad â phob wythnos gyflawn o Gyfnod Tâl Absenoldeb Rhiant y Deintydd-Gyflawnydd. Os yw diwrnod olaf wythnos Cyfnod Tâl Absenoldeb Rhiant y Deintydd-Gyflawnydd yn syrthio mewn mis calendr penodol, mae'r taliad absenoldeb rhiant wythnosol mewn cysylltiad â'r wythnos yn dod yn ddyledus ar ddiwrnod gwaith cyntaf y mis canlynol.

## Amodau sy'n gysylltiedig â thaliadau absenoldeb rhiant

4.40. Nid yw taliadau o dan yr adran hon, nac unrhyw ran o daliadau o'r fath, ond yn daladwy os yw'r amodau a ganlyn wedi eu bodloni—

(a) ni chaiff y Deintydd-Gyflawnydd gyflawni unrhyw wasanaethau deintyddol yn ystod y Cyfnod Tâl Absenoldeb Rhiant o dan unrhyw gytundeb GDC na chytundeb GDP (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau cadw mewn cysylltiad dewisol y cytunwyd rhwng y contractwr a'r Deintydd-Gyflawnydd y bydd y Deintydd-Gyflawnydd yn gweithio), ac eithrio gyda chymeradwyaeth ysgrifenedig y BILl, a

(b) oni bai bod y cyflawnydd yn marw, rhaid i'r Deintydd-Gyflawnydd y gwneir y taliadau mewn cysylltiad ag ef barhau i fod yn Ddeintydd-Gyflawnydd a pharhau i fod wedi ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen gan y contractwr (os yw'r cyflawnydd yn marw, caiff taliadau absenoldeb rhiant barhau i gael eu talu i'r contractwr am weddill y Cyfnod Tâl Absenoldeb Rhiant, ar yr amod eu bod yn cael eu hanfon ymlaen gan y contractwr i ystad y cyflawnydd), ac

(c) rhaid i'r contractwr barhau i dalu i'r Deintydd-Gyflawnydd swm sy'n gyfwerth ag Enillion Pensiynadwy net amcangyfrifedig y Deintydd-Gyflawnydd (a ddarparodd y sail ar gyfer cyfrifo'r tâl absenoldeb rhiant) yn ystod y Cyfnod Tâl Absenoldeb Rhiant (neu ei dalu i ystad y cyflawnydd os bydd y Deintydd-Gyflawnydd yn marw).

4.41. Os bydd y contractwr yn torri unrhyw un neu ragor o amodau ei daliadau o dan yr adran hon a nodir yn y DHA hwn (gan gynnwys yr amodau a nodir ym mharagraff 8.15), caiff y BILl, mewn amgylchiadau priodol, gadw yn ôl unrhyw daliad neu unrhyw ran o daliad o dan yr adran hon sydd fel arall yn daladwy.

4.42. Mae'r cyfrifiad o gyfnodau o hawlogaeth o dan yr adran hon i gymryd i ystyriaeth gyfnodau o absenoldeb cyn i'r DHA hwn ddod i rym. Felly, yn achos hawliad am daliad absenoldeb mamolaeth mewn perthynas â Chyflawnydd Deintyddol sydd wedi cymryd cyfnod o 10 wythnos o absenoldeb mamolaeth yn union cyn i'r D hwn ddod i rym, bydd hawlogaeth i 16 wythnos arall o daliad absenoldeb mamolaeth o dan y DHA hwn.

## Taliadau mewn cysylltiad ag absenoldeb oherwydd salwch hirdymor

4.43. Bydd gan gyflogeion contractwyr, os ydynt yn gymwys i'w gael, hawlogaeth i dâl salwch statudol ar gyfer 28 wythnos o absenoldeb oherwydd salwch mewn unrhyw dair blynedd. Mae hawl partneriaid mewn cytundebau partneriaeth i absenoldeb oherwydd salwch â thâl yn fater ar gyfer eu cytundeb partneriaeth.

4.44. Os yw cyflogai, partner mewn partneriaeth neu gontractwr yn Ddeintydd-Gyflawnydd, bydd gan y contractwr sy'n cyflogi neu'n cymryd ymlaen y Deintydd-Gyflawnydd hwnnw hawlogaeth o dan yr adran hon i daliadau gan y BILl mewn cysylltiad â chyfnod o absenoldeb oherwydd salwch hirdymor a gymerir gan y Deintydd-Gyflawnydd hwnnw, ar yr amod bod y meini prawf cymhwystra wedi eu bodloni ac nad yw'r amodau talu perthnasol wedi eu torri. Fodd bynnag, ni fydd dim yn yr amodau ar gyfer taliadau i gontractwyr o dan yr adran hon yn cael ei ddehongli fel pe bai'n gwanhau hawliau statudol Deintydd-Gyflawnydd. Beth bynnag, hyd yn oed os na chaiff y BILl ei gyfarwyddo yn y DHA hwn i wneud taliadau i gontractwr mewn cysylltiad ag absenoldeb oherwydd salwch, caiff wneud hynny fel mater o ddisgresiwn. Mae'r pwerau i wneud hynny wedi eu nodi yn adran 68 o Ddeddf 2006.

## Hawlogaeth i daliadau absenoldeb oherwydd salwch

4.45. Mae gan gontractwr hawlogaeth i gael taliadau absenoldeb oherwydd salwch mewn cysylltiad â Deintydd-Gyflawnydd a gyflogir neu a gymerir ymlaen ganddo os, mewn cysylltiad ag wythnos gyflawn o absenoldeb oherwydd salwch—

(a) yn ddarostyngedig i baragraffu 9.4, yw enw'r Deintydd-Gyflawnydd wedi ei gynnwys mewn Rhestr Ddeintyddol am gyfnod o ddwy flynedd o leiaf, nad oes angen iddo fod yn gyfnod parhaus ac nad oes angen i ran o'r cyfnod hwnnw na'r cyfan ohono ddod yn union cyn y cyfnod o salwch, ond yn ystod y ddwy flynedd hynny (neu'r cyfanswm hwnnw o ddwy flynedd) rhaid ei fod wedi bod yn cyflawni gwasanaethau deintyddol fel rhan o'r GIG;

(b) na fu modd i'r Deintydd-Gyflawnydd ddarparu gwasanaethau deintyddol o dan gontract GDC y contractwr oherwydd salwch, ond nid yw taliadau absenoldeb oherwydd salwch yn daladwy mewn cysylltiad â'r pedair wythnos gyntaf o absenoldeb;

(c) yw'r Deintydd-Gyflawnydd wedi bod yn cael taliadau o dan yr adran hon am lai na'r uchafswm o 22 o wythnosau yn ystod cyfnod o salwch; a

(d) nad yw'r contractwr yn cael taliadau o dan Adran 8 mewn cysylltiad â'r Deintydd-Gyflawnydd.

4.46. Yn achos Deintydd-Gyflawnydd sydd wedi gwneud blwyddyn o hyfforddiant sylfaen cymeradwy, bydd y ddwy flynedd a grybwyllir ym mharagraff 9.3(a) yn cael eu lleihau i flwyddyn.

4.47. Nid yw taliadau absenoldeb oherwydd salwch ond yn daladwy mewn cysylltiad ag uchafswm o 22 o wythnosau mewn unrhyw gyfnod o 52 o wythnosau. Felly, er enghraifft, pan fydd taliadau absenoldeb oherwydd salwch wedi eu gwneud mewn cysylltiad â Deintydd-Gyflawnydd am gyfnod parhaus o 22 o wythnosau, bydd 30 o wythnosau pellach cyn y gallai'r BILl fod o dan rwymedigaeth eto i wneud taliadau absenoldeb oherwydd salwch mewn cysylltiad â'r Deintydd-Gyflawnydd hwnnw. Fodd bynnag, caiff y BILl hepgor y maen prawf cymhwystra a nodir yn y paragraff hwn mewn unrhyw achos pan fo'n ystyried ei bod yn rhesymol ym mhob amgylchiad

iddo wneud hynny.  Mae’r cyfrifiad o gyfnodau o absenoldeb salwch o dan yr adran hon i gymryd i ystyriaeth gyfnodau o absenoldeb salwch cyn i’r DHA hwn ddod i rym.

## Ceisiadau am daliadau absenoldeb oherwydd salwch

4.48. Pan fo Deintydd-Gyflawnydd yn bodloni’r meini prawf cymhwystra a bennir ym mharagraffau 4.52 and 4.53, rhaid i’r contractwr wneud cais i’r BILl ar ffurflen safonol (sydd wedi ei gosod yn genedlaethol ac sydd ar gael yn electronig), er mwyn cael tâl absenoldeb oherwydd salwch mewn cysylltiad â’r Deintydd-Gyflawnydd hwnnw. Rhaid i’r cais hwnnw gynnwys—

(a) tystysgrif feddygol, neu ddatganiad arall, wedi ei chwblhau, neu ei gwblhau, gan ymarferydd meddygol cofrestredig i’r perwyl bod y Deintydd-Gyflawnwyr yn analluog i weithio oherwydd salwch; a

(b) declarasiwn ysgrifenedig gan y contractwr na wnaed, hyd eithaf ei wybodaeth, o ran y cyfnod y mae’r hawliad yn ymwneud ag ef, ddim hawliad arall am daliadau absenoldeb rhiant o dan Adran 8 ganddo ef nac unrhyw gontractwr arall, na chan Ddeiliad Cytundeb GDP o dan y DHA ar gyfer GDP.

## Cyfrifo swm y taliadau absenoldeb oherwydd salwch a’r dyddiad dyledus

4.49. Y swm y mae gan y contractwr hawlogaeth iddo mewn cysylltiad â thaliadau absenoldeb salwch yw swm wythnosol, wedi ei gyfrifo ar sail Enillion Pensiynadwy misol amcangyfrifedig y Deintydd-Gyflawnydd (a ddylai fel arfer fod y swm sy'n cynnwys mewn perthynas â'r Deintydd-Gyflawnydd hwnnw ar Atodlen Taliadau Misol y contractwr, ynghyd â'i Enillion Pensiynadwy misol amcangyfrifedig mewn perthynas ag unrhyw Daliad Hŷn Misol y mae gan y Deintydd-Gyflawnydd hawl iddo yn union cyn hynny mae'r absenoldeb salwch yn cael ei gymryd.

4.50. Mae’r swm hwn i’w luosi â 12 ac yna’i rannu â 52 i gynhyrchu, yn ddarostyngedig i baragraff 4.49, swm wythnosol y taliadau absenoldeb oherwydd salwch.

4.51. Y swm wythnosol a benderfynir yn unol â pharagraff 4.50 yw’r swm y mae gan y contractwr hawlogaeth iddo mewn cysylltiad â phob wythnos gyflawn pryd y bydd y Deintydd-Gyflawnydd yn absennol ac yn parhau i fodloni’r meini prawf cymhwystra. Os yw diwrnod olaf wythnos o'r fath yn syrthio mewn mis calendr penodol, mae'r taliad absenoldeb salwch wythnosol mewn cysylltiad â'r wythnos honno i ddod yn ddyledus ar ddiwrnod gwaith cyntaf y mis canlynol.

## Amodau sy’n gysylltiedig â thaliadau absenoldeb oherwydd salwch

4.52.  Nid yw taliadau o dan yr adran hon, nac unrhyw ran o daliadau o’r fath, ond yn daladwy os yw’r amodau a ganlyn wedi eu bodloni—

(a) rhaid i’r contractwr, os yw’r BILl yn gofyn iddo wneud hynny, ddarparu i’r BILl dystysgrifau meddygol neu ddatganiadau eraill i’r perwyl bod y Deintydd-Gyflawnydd yn analluog i weithio oherwydd salwch, wedi eu cwblhau gan ymarferydd meddygol cofrestredig, yn cwmpasu unrhyw gyfnod o absenoldeb y mae tâl absenoldeb oherwydd salwch yn cael ei hawlio mewn cysylltiad ag ef;

(b) ni chaiff y Deintydd-Gyflawnydd gyflawni unrhyw wasanaethau deintyddol o dan gontract GDC na chytundeb GDP yn ystod unrhyw gyfnod o absenoldeb y mae tâl absenoldeb oherwydd salwch yn cael ei hawlio mewn cysylltiad ag ef, ac eithrio gyda chymeradwyaeth ysgrifenedig y BILl;

(c) oni bai ei fod yn marw, rhaid i’r Deintydd-Gyflawnydd y gwneir y taliadau mewn cysylltiad ag ef barhau i fod yn Ddeintydd-Gyflawnydd a pharhau i fod wedi ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen gan y contractwr (os yw’r Deintydd-Gyflawnydd yn marw, caniateir i daliadau absenoldeb oherwydd salwch barhau i gael eu talu i’r contractwr am weddill y cyfnod o

22 o wythnosau y byddai taliadau absenoldeb oherwydd salwch fel arall wedi bod yn daladwy amdanynt, ar yr amod eu bod yn cael eu hanfon ymlaen gan y contractwr i ystad y Deintydd-Gyflawnydd); a

(d) rhaid i'r contractwr barhau i dalu i'r Deintydd-Gyflawnydd o leiaf Enillion Pensiynadwy net amcangyfrifedig y Deintydd-Gyflawnydd yn ystod absenoldeb y Deintydd-Gyflawnydd (neu ei dalu i ystad y Deintydd-Gyflawnydd os yw'r Deintydd-Gyflawnydd yn marw).

4.53. Os bydd y contractwr yn torri unrhyw un neu ragor o amodau ei daliadau absenoldeb oherwydd salwch a nodir yn y DHA hwn (gan gynnwys yr amodau a nodir ym mharagraff 4.52), caiff y BILl, mewn amgylchiadau priodol, gadw yn ôl unrhyw daliad neu unrhyw ran o daliad o dan yr Adran hon sydd fel arall yn daladwy.

## Taliadau am gydweithredu proffesiynol

4.54. Rhaid i'r BILl drefnu i bob contractwr gael taliad cydnabyddiaeth am fynd i gyfarfodydd mewn cysylltiad â'r gydweithredfa y mae ei bractis yn perthyn idd drwy gynnwys y taliad yn y GGBC.

4.55. Er mwyn bod yn gymwys i gael y taliad blynyddol llawn, rhaid i'r contractwr fynd i o leiaf bedwar o'r cyfarfodydd hyn.

4.56. Y taliad blynyddol llawn ar gyfer blwyddyn 2026-2027 yw £1200.

4.57. Mewn achos pan fo'r contractwr wedi mynd i lai na phedwar o gyfarfodydd, mae'r swm a nodir ym mharagraff 4.57 i'w rannu â 4 ac mae'r swm sy'n deillio o hynny i'w ddidynnu o daliadau TGBC yn y dyfodol ar gyfer pob cyfarfod nad aethpwyd iddo.

4.58. Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol pan na fo contractwr wedi mynd i unrhyw gyfarfodydd, rhaid i'r BILl ddidynnu'r ffigur a nodir ym mharagraff 4.57 o daliadau TGBC yn y dyfodol.

## Ad-dalu ardrethi annomestig

4.59. O dan yr Adran hon, gall fod modd i gontractwr hawlio ad-daliad o'r ardrethi annomestig sy'n daladwy mewn perthynas ag unrhyw fangre lle y mae'n darparu gwasanaethau o dan ei gontract GDC.

## Cymhwystra i gael ad-daliad o ardrethi annomestig

4.60. Mae gan gontractwr hawlogaeth i gael ad-daliad o daliadau mewn cysylltiad â'i ardrethi annomestig ar gyfer mangre practis os, mewn unrhyw flwyddyn ariannol–

(a) yw'r contractwr yn Drethdalwr Annomestig neu, pan fo'r contractwr mewn partneriaeth, mai un o'r partneriaid sy'n ffurfio'r bartneriaeth yw'r Trethdalwr Annomestig, o ran yr hereditament sy'n ffurfio'r fangre practis neu'n ei chynnwys ac y gwneir yr hawliad mewn perthynas ag ef ("yr Hereditament"); a

(b) yn ddarostyngedig i baragraff 4.62, nad yw cyfanswm gwerth y gwasanaethau deintyddol sylfaenol a ddarparwyd yn y fangre practis fel rhan o'r GIG yn llai na £25,000.

4.61. Caiff y BILl hepgor y maen prawf cymhwystra ym mharagraff 4.61(b) mewn unrhyw achos pan fo'n ystyried ei bod yn rhesymol ym mhob amgylchiad iddo wneud hynny.

## Ceisiadau am ad-daliad o ardrethi annomestig

4.62. Ar yr amod bod y contractwr yn bodloni'r meini prawf cymhwystra a bennir ym mharagraff 4.61, wedi ei ddarllen gyda pharagraff 4.62, rhaid iddo wneud cais i'r BILl ar ffurflen safonol (sydd wedi ei gosod yn genedlaethol ac sydd ar gael yn electronig), er mwyn cael ad-daliad mewn cysylltiad â'i ardrethi annomestig. Rhaid i'r cais hwnnw gynnwys—

(a) yr Hysbysiad Galw am Dalu ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r hawliad yn ymwneud â hi, neu gopi ohono wedi ei ardystio gan yr Awdurdod Bilio;

(b) mewn perthynas â'r Hereditament—

   (i) derbynneb gan yr Awdurdod Bilio ar gyfer y swm cyfan neu, os yw'r contractwr yn talu'r swm blynyddol mewn dau randaliad, hanner swm atebolrwydd blynyddol y contractwr (neu'r partner) ar gyfer ardrethi annomestig, a bennir yn yr Hysbysiad Galw am Dalu, neu

   (ii) os yw'r contractwr (neu'r partner) yn talu ei ardrethi annomestig yn ôl rhandaliadau misol, fanylion am y swm sydd i'w dalu bob mis, y dyddiad y mae'r taliadau i fod i gychwyn a'r dyddiad y mae'r taliadau i fod i ddod i ben, ynghyd â'r Hysbysiad Galw am Dalu yn pennu'r rhandaliadau misol sy'n ddyledus;

a phan fo'r contractwr yn dymuno cael ei ad-dalu mewn cyfandaliad ar ôl talu'r holl randaliadau, rhaid iddo ddarparu prawf o dalu'r swm cyfan a bennir yn yr Hysbysiad Galw am Dalu;

(c) declarasiwn ysgrifenedig gan y contractwr yn pennu'r gyfran, wedi ei mynegi fel canran, o incwm gros yr Hereditament o'r ddarpariaeth o wasanaethau deintyddol (h.y. o waith y GIG a gwaith preifat) yn ystod 6 mis diwethaf y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn ariannol y mae'r hawliad am ad-daliad yn cael ei wneud mewn cysylltiad â hi y mae ei incwm o dan ei gontract GDC yn cyfrif amdani; a

(d) declarasiwn ysgrifenedig gan y contractwr yn ymrwymo, os gofynnir iddo wneud hynny gan y BILl, o fewn tri mis iddo gael cais o'r fath i ddarparu i'r BILl dystiolaeth ddogfennol sy'n ddigonol i ddangos yn gywir gyfran o incwm gros yr Hereditament o'r ddarpariaeth o wasanaethau deintyddol (h.y. o waith y GIG a gwaith preifat) yn ystod 6 mis diwethaf y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn ariannol y mae'r hawliad am ad-daliad yn cael ei wneud mewn cysylltiad â hi yr oedd ei incwm o dan ei gontract GDC yn cyfrif amdani.

4.63. Pan fo'r contractwr yn ceisio ad-daliad o swm mewn perthynas ag ardrethi annomestig mewn perthynas â mwy nag un Hereditament, rhaid iddo gyflwyno i'r BILl hawliad ar wahân mewn cysylltiad â phob un o'r Hereditamentau hynny.

4.64. At ddibenion yr Adran hon, ystyr incwm gros Hereditament o'r ddarpariaeth o wasanaethau deintyddol yw'r incwm gros o unrhyw wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr Hereditament neu mewn cysylltiad ag ef gan naill ai'r contractwr neu unrhyw ymarferydd deintyddol y mae'r contractwr yn ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen.

## Swm yr ardrethi annomestig y caniateir eu had-dalu

4.65. Y swm y mae gan y contractwr hawlogaeth i'w gael mewn cysylltiad â thaliad ad-dalu mewn unrhyw flwyddyn ariannol yw'r swm a bennir yn yr Hysbysiad Galw am Dalu ar gyfer y flwyddyn ariannol honno llai, pan fo incwm gros yr Hereditament o'r ddarpariaeth o wasanaethau deintyddol yn cynnwys unrhyw incwm nad yw'n deillio o'i gontract GDC, unrhyw swm ("y lleihad") a gyfrifir yn unol â pharagraff 4.67.

4.66. Bydd swm y lleihad yn seiliedig ar y ganran y mae'n ofynnol i'r contractwr ei datgan yn unol â pharagraff 4.63(c). Pa le bynnag y bo'r ganran honno yn ymddangos yng ngholofn 1 o'r tabl isod (fel y'i haddaswyd, pan fo'n briodol, yng ngoleuni gwybodaeth bellach a ddaeth i law gan y contractwr, fel y gofynnir amdani yn unol â pharagraff 4.63(c)) y ganran gyfatebol gyferbyn â'r cofnod hwnnw yng ngholofn 2 yw swm, mewn termau canrannol, y lleihad.

| COLOFN 1 Y gyfran o incwm gros yr Hereditament y mae incwm y contract GDC yn cyfrif amdani | COLOFN 2 Cyfran yr ardrethi annomestig sydd i'w lleihau |
|---|---|
| 90% neu ragor | Dim lleihad |
| 80% neu ragor ond llai na 90% | 10% |
| 70% neu ragor ond llai na 80% | 20% |
| 60% neu ragor ond llai na 70% | 30% |
| 50% neu ragor ond llai na 60% | 40% |
| 40% neu ragor ond llai na 50% | 50% |
| 30% neu ragor ond llai na 40% | 60% |
| 20% neu ragor ond llai na 30% | 70% |
| 10% neu ragor ond llai na 20% | 80% |
| Llai na 10% | 90% |

4.67. Daw'r swm y mae gan y contractwr hawlogaeth iddo yn ddyledus pan fydd y BILl yn cael cais dilys am y swm hwnnw.

## Amodau sy'n gysylltiedig â thaliadau o dan yr adran hon

4.68. Nid yw taliadau o dan yr adran hon, nac unrhyw ran o daliadau o'r fath, ond yn daladwy os yw'r amodau a ganlyn wedi eu bodloni–

(a) rhaid i'r contractwr, o ran yr Hereditament y mae'r taliad yn ymwneud ag ef, gydymffurfio â'i amod contract a osodir yn rhinwedd paragraff 12 o Atodlen 3 i Reoliadau 2026;

(b) rhaid i'r contractwr roi ar gael i'r BILl unrhyw wybodaeth nad oes gan y BILl mohoni ond y mae ei hangen arno, a honno'n wybodaeth sydd naill ai gan y contractwr neu y gellid yn rhesymol disgwyl iddo ei chael, er mwyn cyfrifo swm taliadau ad-dalu'r contractwr;

(c) rhaid i'r contractwr hysbysu'r BILl am unrhyw newidiadau i'w amgylchiadau a allai effeithio ar ei gymhwystra i gael taliadau ad-dalu neu ar lefel y taliadau ad-dalu y gall fod ganddo hawlogaeth i'w cael; a

(d) rhaid i'r holl wybodaeth a gyflenwir yn unol ag is-baragraffau (b) neu (c) neu yn gyson â hwy fod yn gywir.

4.69. Os yw'r contractwr yn torri unrhyw un neu ragor o amodau ei daliadau o dan yr adran hon a nodir yn y DHA hwn (gan gynnwys yr amodau a nodir ym mharagraff 4.69), caiff y BILl, mewn amgylchiadau priodol, gadw yn ôl daliad cyfan neu unrhyw ran o daliad o dan yr adran hon sydd fel arall yn daladwy.

## Ad-dalu ffioedd labordy

4.70. Pan fo contractwr yn darparu pecyn gofal i glaf esempt (fel y'i diffinnir yn adran 126 o Ddeddf 2006 ac Atodlen 5 i Reoliadau 2026) y mae angen gwasanaethau labordy ar ei gyfer, mae gan y contractwr hawlogaeth i gael ad-daliad o'r ffioedd labordy yr eir iddynt hyd at y symiau yn y tabl isod.

| Disgrifiad o'r Eitem | Cwmpas | Disgrifiad | Uchafswm yr ad-daliad |
|---|---|---|---|
| Dannedd gosod acrylig llawn | Yn cynnwys platiau arbennig/modelau a pha un a ydynt yn ddannedd gosod uchaf/isaf neu'r ddau | Prosthetigau | £150 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dannedd gosod acrylig rhannol | Yn cynnwys platiau arbennig/modelau a pha un a ydynt yn ddannedd gosod uchaf/isaf neu'r ddau | Prosthetigau | £90 |
| Dannedd gosod crôm | Yn cynnwys platiau arbennig/modelau a pha un a ydynt yn ddannedd gosod uchaf/isaf neu'r ddau | Prosthetigau | £200 |
| Atgyweirio | Gan gynnwys mân addasiadau er enghraifft ychwanegu atgyfnerthydd ac atgyweirio eitemau labordy adferol | Prosthetigau/Adferol | £66 |
| Ychwanegiadau | Ychwanegu dant | Prosthetigau | £60 |
| Ail-leinio | Yn cynnwys leininau caled a meddal | Prosthetigau | £64 |
| Gard ceg/crensian dannedd | Gwneuthuriad meddal neu galed | Adferol | £39 |
| Dyfais orthodontig i gadw dannedd yn eu lle | Ddim yn berthnasol | Orthodonteg | £33 |
| Coron sengl | Gan gynnwys metelau gwerthfawr, Sirconia, Emax, postyn a chraidd | Adferol | £110 |
| Arosodiad/mewnosod iad/argaen sengl | Porslen, aur, cyfansawdd | Adferol | £125 |
| Pont sefydlog fesul uned | Wedi ei bondio/Sirconia | Adferol | £57 |
| Pont sefydlog fesul uned | Gwneuthuriad safonol gan gynnwys adenydd a phontigau | Adferol | £50 |
| Coron dros dro | Dewis rhydd fesul uned | Adferol | £39 |
| Pont dros dro | Dewis rhydd fesul uned | Adferol | £39 |
| Modelau astudio | Pan y'u defnyddir ar eu pennau eu hunain ac nid fel rhan o driniaeth adferol neu driniaeth brosthetig fesul model | Ddim yn berthnasol | £18 |
| Postyn a chraidd nas defnyddir fel rhan o gynllun triniaeth pont/coron | | Adferol | £28 |

4.71. I hawlio ad-daliad o ffi labordy, rhaid i'r contractwr:

(a) cyflwyno cais i’r BILl o fewn 2 fis i gwblhau’r pecyn gofal;

(b) darparu tystiolaeth o’r canlynol:

(i) statws esempt y claf;

(ii) anfoneb neu dderbynneb y labordy;

(iii) y cyfiawnhad clinigol dros y gwaith labordy;

(iv) bod y pecyn gofal wedi ei gwblhau;

(c) cadw copïau o’r holl dystiolaeth am 24 mis a’u rhoi ar gael pan ofynnir amdanynt at ddibenion archwilio.

4.72. Pan fo claf yn glaf esempt, mae gwerth yr ad-daliad yn cael ei gronni yn erbyn canran y pecynnau gofal ar gyfer gwasanaethau gorfodol ond nid yw'n cael ei gynnwys mewn unrhyw gyfrifiad ar gyfer y terfyn 10% ar gyfer Pecynnau Gofal Coronau, Pontydd, Mewnosodiadau, Arosodiadau ac Argaenau.

# RHAN 5
# DARPARIAETHAU ATODOL

## Darpariaethau gweinyddol

## Gweinyddu gan AGB y GIG

5.1. Yn ymarferol, bydd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (“AGB y GIG”) yn gweinyddu taliadau ar ran BILlau yn unol â’r Rheoliadau Swyddogaethau. Fodd bynnag, mae’r BILl yn parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau bod taliadau’n gywir a bod y DHA hwn wedi ei gymhwyso’n briodol.

## Gordaliadau/tandaliadau

5.2.Pan fo’r BILl neu AGB y GIG yn dod yn ymwybodol fod contractwr wedi ei ordalu neu ei dandalu, rhaid i’r BILl:

(a) hysbysu’r contractwr yn ysgrifenedig o fewn 14 o ddiwrnodau iddo ddod yn ymwybodol o’r gordaliad neu dandaliad;

(b) pennu’r swm a’r rheswm dros y gordaliad neu dandaliad;

(c) yn achos gordaliad, bennu’r dull a’r amser y bydd yn cael ei adennill (a all fod drwy ddidyniad o TGBCau Misol yn y dyfodol dros gyfnod rhesymol);

(d) yn achos tandaliad, dalu’r swm sy’n ddyledus o fewn 28 o ddiwrnodau.

5.3. Mae’r rhwymedigaeth i wneud taliadau yn ddarostyngedig i unrhyw hawl sydd gan y BILl i osod yn erbyn swm sy’n daladwy i’r contractwr swm:

(a) sy’n ddyledus gan y contractwr i’r BILl o dan y contract,

(b) sydd wedi ei dalu i’r contractwr oherwydd gwall neu mewn amgylchiadau pan nad oedd yn ddyledus, neu

(c) y caiff y Bwrdd Iechyd Lleol ei gadw’n ôl oddi wrth y contractwr yn unol â thelerau’r contract neu unrhyw ddarpariaethau cymwys eraill a gynhwysir mewn cyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 60 o Ddeddf 2006.

## Taliadau ar gyfrif

5.4. Pan fo contractwr wedi cyflwyno hawliad am daliad o dan y DHA hwn ond bod angen gwybodaeth bellach neu dystiolaeth bellach ar y BILl cyn penderfynu'r hawliad, caiff y BILl wneud taliad ar gyfrif o hyd at 80% o'r swm a hawlir, wrth aros i'r wybodaeth ofynnol neu'r dystiolaeth ofynnol ddod i law.

5.5.Pan fo taliad ar gyfrif wedi ei wneud, rhaid i'r BILl:

(a) hysbysu'r contractwr yn ysgrifenedig fod y taliad ar gyfrif;

(b) pennu'r wybodaeth neu dystiolaeth sy'n ofynnol;

(c) pennu'r amserlen ar gyfer darparu'r wybodaeth neu dystiolaeth (y mae'n rhaid iddi fod yn rhesymol yn yr amgylchiadau);

(d) gwneud y penderfyniad terfynol ac unrhyw daliad olaf neu adenilliad o fewn 28 o ddiwrnodau i'r wybodaeth neu dystiolaeth ofynnol ddod i law.

## Terfynau amser i hawlio

5.6. Oni phennir yn wahanol yn y DHA hwn, rhaid i gontractwr gyflwyno unrhyw hawliad am daliad o dan y DHA hwn o fewn tri mis i'r dyddiad y darparwyd y gwasanaethau neu y cododd yr hawlogaeth i daliad.

5.7. Caiff y BILl, mewn amgylchiadau eithriadol ac yn ôl ei ddisgresiwn, dderbyn hawliad hwyr pan fo'r contractwr yn gallu dangos rheswm da dros yr oedi.

## Cysoniadau pan derfynir contract

5.8. Os bydd contract GDC yn terfynu, rhaid i'r BILl gysoni pob taliad a ffi o fewn pedwar mis i'r dyddiad terfynu. Rhaid i'r cysoni gynnwys:

(a) pob TGBC Misol a dalwyd ac sy'n daladwy;

(b) pob taliad ar gyfer apwyntiadau mynediad brys, asesiadau cleifion newydd, a phecynnau gofal;

(c) pob taliad y pen;

(d) pob taliad arall a wnaed o dan y DHA hwn;

(e) pob ffi GIG a ddylai fod wedi ei chasglu;

(f) pob gordaliad a thandaliad;

(g) unrhyw gosbau ariannol neu unrhyw arian a adenillwyd.

5.9. Rhaid i'r contractwr ad-dalu unrhyw symiau sy'n ddyledus i'r BILl o fewn 28 o ddiwrnodau iddo gael y datganiad cysoni, oni bai bod y contractwr yn anghytuno â'r cysoniad yn unol â pharagraff 20.12.

5.10. Rhaid i'r BILl dalu unrhyw symiau sy'n ddyledus i'r contractwr o fewn 28 o ddiwrnodau iddo ddyroddi'r datganiad cysoni.

Datrys anghydfodau

5.11. Pan fo contractwr yn anghytuno ag unrhyw fater yn ymwneud â thaliadau o dan y DHA hwn, caiff y contractwr droi at weithdrefn datrys anghydfodau'r GIG a nodir yn Atodlen 3 i Reoliadau 2026.

5.12. Pan fo anghydfod wedi ei atgyfeirio at Weinidogion Cymru i'w benderfynu, bydd penderfyniad Gweinidogion Cymru yn derfynol ac yn rhwymo'r ddau barti.

Llofnodwyd gan Alex Slade, Cyfarwyddwr, Gofal Sylfaenol, Iechyd Meddwl a Blynyddoedd Cynnar o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad: 7 Ebrill 2026